Chwarae Cymru
Play Wales



# Plentyndod, chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae

Canllawiau gwaith chwarae – cyfrol 1

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru
Play Wales

ISBN: 978-1-914361-00-5

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo drwy unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Golygu a deunydd ychwanegol wedi ei gynhyrchu gan Ludicology.

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AF

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

Chwefror 2021

# Cynnwys


Cyflwyniad 5

Chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae (1 a 2) 7

Egwyddor Gwaith Chwarae 1 8

Chwarae yn y fan a'r lle 9

Egwyddor Gwaith Chwarae 2 10

Y plentyn yn chwarae: datblygiadaeth a'r tu hwnt 11

Damcaniaeth ymlyniad 11

Ymlyniad a chwarae 12

Beirniadaeth 12

Damcaniaethau datblygiad personoliaeth 12

Sigmund Freud 12

Freud a chwarae 12

Eric Erikson 12

Erikson a chwarae 13

Beirniadaeth 13

Damcaniaethau datblygiad dirnadol 14

Jean Piaget 14

Piaget a chwarae 15

Beirniadaeth 15

Lev Vygotsky 16

Vygotsky a chwarae 17

Beirniadaeth 17

Damcaniaethau ecolegol 18

Urie Bronfenbrenner 18

Bronfenbrenner a chwarae 18

Beirniadaeth 18

Y plentyn yn chwarae: y tu hwnt i ddatblygiadaeth 20
Gwytnwch a lles 21
Casgliadau a chysyniadau allweddol ar gyfer ymarfer 22
Persbectifau ar blentyndod 23
Hanes cryno 23
Beth ydym yn ei olygu wrth blentyndod? 24
Plant cymwys 25
Hawliau plant 26
Pryderon am blentyndod 28
Casgliadau 29
Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith 30
Egwyddorion Gwaith Chwarae 3 i 8 30
Egwyddor Gwaith Chwarae 3 30
Egwyddor Gwaith Chwarae 4 30
Egwyddor Gwaith Chwarae 5 31
Egwyddor Gwaith Chwarae 6 31
Egwyddor Gwaith Chwarae 7 31
Egwyddor Gwaith Chwarae 8 32
Casgliadau 32
Cyfeiriadau 33
Atodiad: Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae 39

# Cyflwyniad

**Rydym wedi cynhyrchu pedwar canllaw, gyda'r teitlau hynod greadigol canllawiau gwaith chwarae, cyfrol 1, 2, 3 a 4, fel casgliad o adnoddau ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio'n bennaf, neu fel rhan o'u rôl, gyda phlant sy'n chwarae. Yn ogystal, efallai y byddant o ddiddordeb hefyd i bobl sydd ddim yn gweithio gyda phlant sy'n chwarae ond sydd wedi eu cyfareddu gan chwarae plant ac sydd am ddysgu mwy.**

Mae'r canllawiau gwaith chwarae'n cyflwyno ac yn archwilio rhai o'r damcaniaethau, cysyniadau, syniadau ac arferion craidd sydd wrth galon gweithio gyda phlant sy'n chwarae. Nid yw'r canllawiau'n gyfrif cyflawn o bell ffordd. Mae plant a'u chwarae'n gymhleth, fel y mae'r llu o ffyrdd y gallwn weithio gyda'u chwarae, felly mae llawer mwy i'w ddysgu o hyd.

Er mwyn paratoi i weithio gyda phlant sy'n chwarae, mae'r canllawiau'n cychwyn gyda chyfrol 1 sy'n edrych ar rai o'r damcaniaethau sy'n dylanwadu ar y modd y mae oedolion yn deall plant, rôl chwarae a phlentyndod, yn ogystal ag egwyddorion gweithio gyda phlant sy'n chwarae. Wedi datblygu rhywfaint o ddealltwriaeth sylfaenol, mae cyfrol 2 yn archwilio'r llu o ffyrdd y gall y bobl hynny sy'n gweithio gyda phlant sy'n chwarae greu neu gyfoethogi amgylcheddau fel eu bod yn addas ar gyfer chwarae, ac ar arferion er mwyn cefnogi plant sy'n chwarae'n uniongyrchol. Yn dilyn hyn, mae cyfrol 3 yn edrych ar gynllunio, sefydlu a rheoli prosiect chwarae wedi ei staffio, tra bo cyfrol 4 yn delio yn ddyfnach gyda materion sy'n ymwneud â rheoli staff a gweithio gydag oedolion eraill.

Trwy'r canllawiau hyn rydym yn defnyddio'r termau gwaith chwarae a gweithwyr chwarae. Efallai y gellir deall gwaith chwarae orau fel y grefft o weithio gyda phlant sy'n chwarae. Mae gwaith chwarae yn rôl sensitif a myfyriol sy'n gwerthfawrogi chwarae er ei fwyn ei hun, nid dim ond fel modd i gyflawni'r diben. Mae gwaith chwarae yn blentyn ganolog yn ogystal ag yn chwarae ganolog, yn canolbwyntio ar alluogi plant i gyfarwyddo eu profiadau chwarae eu hunain ac yn ceisio sicrhau mai chwarae yw prif destun y berthynas oedolyn-plentyn.

Mae gwaith chwarae yn anelu i greu amgylcheddau sy'n addas er mwyn i chwarae o ansawdd da ddigwydd ac mae'n ceisio lleihau unrhyw anghydbwysedd grym rhwng plant ac oedolion, gan anelu i greu perthynas weithio gyfochrog yn hytrach na'r un hierarchaidd fwy cyffredin rhwng oedolion a phlant. I lawer, gwaith chwarae yw eu proffesiwn, eu prif rôl gwaith, a'u galwedigaeth – i eraill mae'n rôl y maent yn ei chyflawni fel rhan o gyfrifoldebau eraill ehangach. Yn yr adnoddau hyn, mae'r term gweithiwr chwarae'n cyfeirio at bob un sy'n hwyluso a chefnogi chwarae plant.

Mae **Cyfrol 1: Plentyndod, chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae** yn darparu trosolwg o'r etheg broffesiynol a'r safbwyntiau damcaniaethol sy'n sail i arfer gwaith chwarae a safbwyntiau gwaith chwarae ar blentyndod. Wrth gwrs, mae llawer mwy i'w ddysgu am blant, chwarae a gwaith chwarae ond mae cynnwys y gyfrol hon yn hanfodol ar gyfer pobl sy'n ystyried gweithio gyda phlant sy'n chwarae.

Mae'r adran gyntaf – Chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae (1 a 2) – yn archwilio rhai o'r syniadau, y cysyniadau a'r damcaniaethau datblygiad plant a phlentyndod sydd wedi dylanwadu, ac sy'n dal i ddylanwadu, ar ddealltwriaeth o blant a'u chwarae ac sydd, o ganlyniad, yn bwysig i bobl sy'n arfer gwaith chwarae.

Mae adran dau – Rhoi Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith – yn edrych ar y rôl gwaith chwarae a sut mae'n effeithio ar, yn ogystal â chael ei effeithio gan, yr amgylchedd a'r plant. Mae'n ystyried sut y rhoddir blaenoriaeth i'r broses chwarae a sut y mae gweithwyr chwarae'n cydbwyso buddiannau datblygiadol chwarae gyda lles plant.

Mae **Cyfrol 2: Ymarfer gwaith chwarae** yn rhoi cyfle i'r bobl hynny sy'n newydd i waith chwarae archwilio rhai o'r syniadau, y cysyniadau a'r fframweithiau, a'r defnydd ymarferol o ddulliau ac agweddau sydd wrth galon arfer gwaith chwarae.

Mae adran un yn ystyried cysyniadau fel fforddiannau a'r amgylchedd affeithiol, sy'n galluogi pobl sy'n arfer gwaith chwarae i ddynodi, creu neu gyfoethogi mannau ar gyfer chwarae.

Yna, cyflwynir Bob Hughes, ysgolhaig ac ymarferydd blaenllaw ym maes gwaith chwarae, ynghyd â'i dacsonomi o fathau chwarae a'i syniadau am fecanweithiau chwarae. Mae hyn o fudd er mwyn

gwerthfawrogi'r amrywiol ffurfiau a chyfuniadau o ffurfiau y gall chwarae eu cymryd ond hefyd er mwyn datblygu iaith gyffredin i'w defnyddio wrth siarad am chwarae plant. Rydym hefyd yn archwilio ei gwricwlwm gwaith chwarae, fframwaith defnyddiol ar gyfer meddwl am y cwmpas o gyfleoedd ar gyfer chwarae y dylai'r rheini sy'n arfer gwaith chwarae eu cynnig.

Wedi edrych yn helaeth ar waith anuniongyrchol gyda phlant sy'n chwarae yn adran un, mae adran dau yn edrych ar ystod o syniadau sydd wedi, ac sy'n dal i ddylanwadu ar waith uniongyrchol gyda phlant sy'n chwarae. Bydd yr adran hon yn cyflwyno cylchdro chwarae Else a Sturrock a'r moddau ymyrryd cysylltiedig, yn ogystal ag adolygu rhywfaint o ddulliau ymyrryd cyffredin. Mae'r adran yn cloi drwy archwilio materion sy'n ymwneud â risg ac ansicrwydd mewn chwarae plant ac agweddau tuag at asesu risg, ac asesu risg-budd yn bennaf.

Mae **Cyfrol 3: Datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae** yn canolbwyntio ar elfennau ymarferol datblygu a rheoli darpariaeth gwaith chwarae o ddydd-i-ddydd. Mae'n cael ei danategu gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac wedi ei gynhyrchu ar gyfer y bobl hynny sydd â dealltwriaeth dda o ddamcaniaethau ac arfer chwarae a gwaith chwarae, gan ganolbwyntio llai ar gysyniadau a damcaniaethau gwaith chwarae, a mwy ar ddyletswyddau rheolaethol uwch-weithwyr chwarae.

Mae'r gyfrol hon wedi ei rhannu'n dair adran. Adran un – Cynllunio ar gyfer chwarae – sy'n edrych yn benodol ar yr agweddau allweddol i'w hystyried wrth baratoi ar gyfer prosiect gwaith chwarae.

Adran dau – Datblygu fframwaith sefydliadol – fydd yn helpu darllenwyr i ddynodi a gwerthfawrogi rôl a swyddogaeth polisïau a gweithdrefnau wrth gefnogi arfer gwaith chwarae, cyflawni ein dyletswydd gofal i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwarchod enw da'r sefydliad.

Yn olaf, mae adran tri – Gwerthuso ansawdd – yn archwilio materion sy'n ymwneud â gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth chwarae, gan edrych ar ffyrdd y gallwn barhau i adolygu a gwella ansawdd y ddarpariaeth yr ydym yn gyfrifol amdani.

Mae **Cyfrol 4: Rheoli gweithwyr chwarae a gweithio gydag oedolion eraill** wedi ei hanelu at y bobl hynny sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell dros aelodau eraill o staff yn cynnwys rheolwyr a phwyllgorau rheoli. Mae adran un – Derbyn cyfrifoldebau rheoli – yn archwilio pynciau'n cynnwys arddulliau arweinyddol, creu amgylcheddau effeithiol ar gyfer gwaith tîm, sgiliau ar gyfer rheoli newid a darparu adborth effeithlon.

Bydd adran dau – Cefnogi datblygiad proffesiynol – yn canolbwyntio ar rôl allweddol myfyrio, yn cynnwys dulliau a modelau i gefnogi a hyrwyddo arfer myfyriol. Yn ogystal, mae'r adran hon yn cwmpasu mentora, goruchwylio ac arfarnu staff.

Mae adran tri – Gweithio gydag oedolion eraill – yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gydag oedolion eraill y tu hwnt i'r tîm staff. Mae'n ystyried llu o faterion cysylltiedig o'r ffurfiol i'r llai ffurfiol, yn cynnwys gwerth creu argraff gyntaf gadarnhaol, datblygu a chynnal perthnasau'n llawn ymddiriedaeth gyda rhieni a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill.

Yn olaf, mae adran pedwar – Delio gyda gwrthdaro, beirniadaeth a chwynion – yn astudio pam y gallai gwrthdaro ddigwydd ac yn archwilio amrywiol arddulliau ar gyfer delio gyda gwrthdaro rhyngbersonol a sut y gall hunanymwybyddiaeth gefnogi cyfathrebu effeithlon.

# Chwarae a’r Egwyddorion Gwaith Chwarae (1 a 2)




Mae chwarae’n broses ddigymell a bywiog ble y gall meddwl, teimlo a gwneud ffynnu. Pan fyddwn ni’n chwarae, cawn ein rhyddhau i fod yn ddyfeisgar a chreadigol, yn y broses gallwn newid ein hunain a’n barn am y byd. Mae chwarae’n bwysig i bob plentyn, waeth beth fo’i nam neu ei ymddygiad. Mae pleser a chyffro chwarae, yr angerdd a’r canolbwyntio, y rhyddid i arbrofi, i archwilio a chreu, i ddysgu sut y mae pethau a phobl yn gweithio a’r hyn y gallwn ei wneud gyda nhw, i roi penrhyddid i’r dychymyg, ac i lanw’r bwlch rhwng realiti ac awydd, i gyd yn tarddu o’r ffaith mai wrth chwarae ni sydd wrth y llyw. Mae ‘Chwarae yn ysfa reddfol’ sy’n creu ystod o ymddygiadau hyblyg ar gyfer ymdopi gyda newid ac ansicrwydd. Mae gan chwarae fuddiannau uniongyrchol yn ogystal â rhai tymor hir ac mae angen iddo fod o dan reolaeth y plentyn.

Mae’r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn sefydlu’r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac, yn hyn o beth, dylid eu hystyried fel cyfanwaith. Mae’r Egwyddorion yn disgrifio’r hyn sy’n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn darparu’r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant ac arddegwyr. Maent wedi eu seilio ar y gydnabyddiaeth y caiff gallu plant ac arddegwyr i ddatblygu’n gadarnhaol ei gyfoethogi o gael mynediad i’r ystod ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae[1].

Ceir wyth Egwyddor, mae’r ddwy Egwyddor gyntaf yn anelu i ddisgrifio’r hyn sy’n unigryw am chwarae a’i bwysigrwydd ym mywydau plant, tra bo Egwyddorion 3 i 8 yn amlygu rhai o’r materion pwysicaf ar gyfer gweithwyr chwarae.

Yn yr adran hon byddwn yn edrych ar rai o’r damcaniaethau chwarae sy’n hysbysu Egwyddorion 1 a 2 cyn symud ymlaen i ystyried rhai o’r materion ehangach sy’n dylanwadu ar ein dealltwriaeth o a’n harfer gyda phlant sy’n chwarae. Yn olaf, byddwn yn dod yn ôl at Egwyddorion Gwaith Chwarae 3 i 8 i ddisgrifio’r hyn y mae gweithwyr chwarae’n ei wneud, sut y maent yn ei wneud a pham. Dydyn ni ddim am fod yn nawddoglyd, ond daw’r adran hon â rhybudd iechyd! Mae adran dau a chyfrolau dau, tri a phedwar i gyd yn ganllawiau cwbl hygyrch a darllenadwy ond efallai na fydd yr adran hon yr un mor rhwydd i ambell ddarllenydd.

Daw llawer o gynnwys yr adran hon o feysydd seicoleg datblygiadol a chymdeithaseg plentyndod. I ddarllenwyr sydd heb arfer gyda’r meysydd astudiaeth hyn, mae’n bosibl y bydd nifer o eiriau a syniadau newydd fydd yn galw am dipyn o amser i weithio trwyddynt. Mae’r syniadau yr ydym yn eu trafod wedi eu gwreiddio’n ddwfn yn y modd yr ydym yn deall ac yn darparu ar gyfer plant a phlentyndod. Mae’n bwysig bod gennym rywfaint o ddealltwriaeth ohonynt, er mwyn inni allu

eu beirniadu a gweithio gyda phobl eraill y mae eu harfer yn cael ei hysbysu ganddynt. Er hynny, fe allant fod yn dalcen caled, felly cofiwch gymryd amser i'w darllen ond cymerwch hoe yn rheolaidd a byddwch yn barod i ddod yn ôl atynt i ail-ddarllen adran os oes angen – mae'n dda gwneud hynny gyda phethau sy'n newydd inni.

## Egwyddor Gwaith Chwarae 1

Mae **pob** plentyn a pherson ifanc angen chwarae. Mae'r awydd i chwarae'n un greddfol. Mae chwarae'n anghenraid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad iach a lles unigolion a chymunedau.

Mae tystiolaeth o chwarae plant i'w weld ym mhob diwylliant, o bob cwr o'r byd ac o bob cyfnod mewn hanes. Daw rhai o'r teganau cynharaf y gwyddom amdanynt o'r hen Aifft ac maent yn cynnwys peli, topiau a doliau. Yng Ngroeg yr Henfyd ysgrifennodd Platon (427-348 COE) ac Aristotlys (384-322 COE) am chwarae plant. Yn y cyfnod canoloesol ceir darlun enwog o'r enw 'Gemau Plant' (1560) gan Pieter Bruegel sy'n darlunio bron i 80 o wahanol gemau, y gallwn adnabod y mwyafrif ohonynt heddiw. Yn ddiweddarach, mae astudiaethau croesddiwylliannol wedi canfod, er eu bod yn amrywio'n sylweddol mewn gwahanol ddiwylliannau, 'ym mhobman, mae plentyn yn chwarae'n arwydd o ddatblygiad iach … Mae gan chwarae agweddau byd-eang, ond hefyd agweddau diwylliannol-benodol'[2].

Defnyddir y term '**pob** plentyn' i olygu yn union hynny – nid oes unrhyw eithriadau. I ddefnyddio'r diffiniad o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[3], mae'n golygu pob plentyn waeth beth fo hil ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol, ei liw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, eiddo, anabledd, statws genedigol neu statws arall. Mae gweithwyr chwarae'n credu bod pob plentyn yn cael ei eni gyda'r ysfa i chwarae. Mae'n nodwedd allweddol ac yn rhan o'r hyn sy'n ein gwneud y person ydyn ni. Er bod llawer ar ôl inni ei ddysgu am chwarae, mae'n sicr o'r dystiolaeth wyddonol ei fod yn allweddol ar gyfer ein lles seicolegol a chorfforol. Yn wir, os caiff chwarae ei dynnu oddi wrth anifeiliaid ifanc, yn cynnwys plant dynol, mae'r effeithiau'n niweidiol.

Mae gwaith chwarae'n agwedd gynhwysol sy'n cydnabod anghenion chwarae pob plentyn. Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad oes gan bob plentyn fynediad i ystod o gyfleoedd chwarae ysgogol. Gall plant gael eu gwthio i'r cyrion neu eu rhwystro rhag chwarae o ganlyniad i ofnau oedolion, anabledd, bwlio a rhagfarn, gwrthdaro, camdriniaeth neu unigrwydd. Ein rôl ni yw cefnogi chwarae'n weithredol ar gyfer y plant hyn ac eiriol dros eu hawl i chwarae.

Mae Egwyddor Gwaith Chwarae 1 yn datgan bod 'yr awydd i chwarae'n un greddfol'. Mae hyn yn awgrymu bod chwarae'n bresennol o'u geni ym mhob plentyn a'i fod yn elfen anhepgor o'n hunaniaeth fel bodau dynol. Yn wir, mae chwarae'n ymddangos ym mron pob mamal, ac mewn llawer o anifeiliaid eraill, yn cynnwys adar a physgod[4]. Mae chwarae'n ysfa fiolegol, a ddywedir yn aml sy'n cael ei chymell yn gynhenid[5]. Mae chwarae'n aml yn hynod o foddhaus a phleserus a chaiff ei wneud fel arfer er ei fwyn ei hun.

Mae Sutton-Smith[6] yn awgrymu efallai bod chwarae wedi datblygu mewn dau gam. Yn gyntaf, fel modd o atgyfnerthu egin-gysylltiadau cemegol a ffisegol yn yr ymennydd sy'n sicrhau y bydd y plentyn yn cyfaddasu i'w amgylchedd ef neu hi ei hun. 'Mae chwarae'n agor posibiliadau yn yr ymennydd y gellir eu codi lan yn hwyrach neu eu gwaredu; yr elfen bwysig yw bod y potensial yn cael ei gadw'n fyw, yn fwy na phe na bae chwarae erioed wedi digwydd yn y lle cyntaf.'[7] Yn ail, bydd y plentyn yn mynd ati'n fwriadol i gyflwyno risg ac ansicrwydd er mwyn ymarfer rheolaeth a meistrolaeth drostynt. Mae'r ansicrwydd yma'n cynnwys agweddau corfforol yn ogystal ag emosiynol.

'Mae pwysigrwydd chwarae wedi ei wreiddio'n y broses o ddatblygu hyblygrwydd emosiynol trwy ymarfer agwedd emosiynol cael eich synnu neu gael eich drysu neu eich siglo am ennyd – hynny yw, trwy chwarae mewn cyd-destun cymharol ddiogel caiff emosiynau eu cyfaddasu o fewn y chwarae gan y ffrâm y mae'r chwarae'n digwydd ynddi a diffyg oblygiadau difrifol a geir o golli rheolaeth'.[8]

Mae chwarae'n ymddygiad amwys. Mae pob un ohonom wedi chwarae (ac yn parhau i chwarae). Ceir nifer o safbwyntiau croes a damcaniaethau sy'n cystadlu â'i gilydd am ei rôl yn natblygiad ac esblygiad dynoliaeth. Mae chwarae'n cwmpasu nifer o wahanol feysydd o fywydau plant. Mae'n anodd gwahanu hyn

a dynodi buddiannau penodol i'r plentyn o gyflawni gweithred chwarae benodol. Efallai bod hyn oherwydd bod rôl chwarae'n 'debygol o fod yn amlochrog, amrywiol ac y bydd, yn aml, yn cynnwys prosesau cymhleth, anuniongyrchol ac annirnad'[9].

Er hynny, mae chwarae'n hanfodol ar gyfer datblygiad plant mewn tri maes cyffredinol – biolegol, seicolegol a thwf cymdeithasol. Mae Brown[10] yn rhestru naw categori o fuddiannau gaiff eu derbyn yn gyffredinol, sy'n cynnwys:

- datblygiad dirnadol
- creadigedd a datrys problemau
- sefydlogrwydd emosiynol ac ymdopi â phoen meddwl
- hyblygrwydd a'r cyfle i roi tro ar ymddygiad newydd
- rhyddid i archwilio, arbrofi a gweithredu'n annibynnol
- chwilio am gynnwrf, hwyl a phleser
- gweithgarwch corfforol, cydsymudiad a datblygiad sgiliau motor
- hunanddarganfyddiad a datblygiad hunaniaeth
- cymdeithasoli a rhyngweithio cymdeithasol.

## Chwarae yn y fan a'r lle

Am flynyddoedd lawer, y modd traddodiadol o feddwl am y buddiannau hyn oedd rhestru ffyrdd y byddent o gymorth wedi i'r plentyn dyfu'n oedolyn. Yr anhawster gyda'r agwedd hon yw bod y dystiolaeth wyddonol am unrhyw fuddiannau gohiriedig sydd gan chwarae yn brin. Yn fwy diweddar, mae nifer o awduron[11] wedi awgrymu efallai na fydd chwarae, o anghenraid, yn paratoi'r plentyn i dyfu'n oedolyn gwell, 'yn hytrach, mae buddiannau chwarae yn yr ennyd yn helpu i greu plentyn gwell'[12]. Mewn geiriau eraill, mae chwarae'n cynnig buddiannau uniongyrchol i'r plentyn ac mae'n ymwneud, yn bennaf, â'r 'fan a'r lle'. Mae profiadau wrth chwarae'n ein dylanwadu yn yr ennyd ac o eiliad i eiliad, maent yn cyfoethogi ein bywydau ac yn ein galluogi i fynegi a mireinio ein doniau newydd. Mae'r profiadau hynny yn debyg o ddylanwadu hefyd ar ein taith wrth dyfu a datblygu, fodd bynnag mae bron a bod yn amhosibl sefydlu cysylltiadau uniongyrchol rhwng yr hyn fydd plant yn ei chwarae a pha fath o oedolion y byddant yn tyfu i fod.

O'i gymharu â mamaliaid eraill, mae datblygiad y bod dynol o fabandod i fod yn oedolyn yn digwydd dros gyfnod maith. Awgryma Lester a Russell bod hyn yn cynnig cyfle inni arbrofi gydag ac archwilio ystod eang o ymddygiadau ac ymatebion sy'n hanfodol ar gyfer ymdopi ag amgylcheddau cymhleth. Gellir ymarfer, mynegi a mireinio sgiliau, tra datblygir gwybodaeth ac emosiynau, yn ddiogel rhag canlyniadau'r byd go iawn. Mae chwarae'n caniatáu inni gael ystod hyblyg o ymddygiadau y gallwn eu defnyddio ar gyfer ymdopi â newid ac ansicrwydd[13]. Gellir ei ystyried fel 'hyfforddiant ar gyfer yr annisgwyl'[14].

Mae chwarae'n hanfodol ar gyfer lles unigolion. Mae chwarae'n sicrhau cyfleoedd i blant ddelio ag emosiynau anodd ac i oresgyn straen a theimladau poenus. Mae chwarae hefyd yn cynyddu deheurwydd, datblygiad corfforol a sgiliau motor. Yn ogystal â mesurau gwrthrychol traddodiadol lles, fel iechyd corfforol a meddyliol, mae Lester a Russell[15] yn nodi bod lles yn cwmpasu tri maes goddrychol eang:

- lles emosiynol neu fodlonrwydd a hapusrwydd â bywyd
- lles seicolegol neu ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan a bwriad
- lles cymdeithasol neu ansawdd perthnasau, perthyn, cyfranogi a chael eich derbyn.

Mae'r meysydd hyn yn canolbwyntio ar fywydau plant ar hyn o bryd ac ansawdd eu plentyndod yn y presennol – yn ogystal â'u datblygiad i'r dyfodol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r cysyniad bod chwarae'n effeithio ar fywydau plant yn y fan a'r lle, a'i fod yn elfen allweddol yn eu bywydau corfforol, emosiynol a chymdeithasol.

Yn olaf, awgryma Egwyddor Gwaith Chwarae 1 bod chwarae'n hanfodol ar gyfer cymunedau iach. Mae gan blant sy'n profi bywyd bob dydd yn eu cymuned eu hunain well ymdeimlad o berthyn ac mae hyn, yn ei dro, yn cynyddu cymdogrwydd[16]. Gall chwarae plant wella ysbryd cymunedol, lleihau unigrwydd cymdeithasol a gwneud cymunedau'n fwy dymunol i fyw ynddynt. Yn ddiweddar fodd bynnag, mae'r nifer o blant sy'n chwarae allan wedi gostwng ac mae eu mudoledd annibynnol wedi lleihau. Mae plant sy'n teithio i'r ysgol mewn car yn fwy tebygol o oramcanu bygythiadau fel dieithriaid a throseddu[17]. Mae cymunedau iach yn hanfodol hefyd ar gyfer lles plant.

Mae mannau cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i blant greu rhwydweithiau cymdeithasol ac i ddianc rhag goruchwyliaeth oedolion[18].

## Egwyddor Gwaith Chwarae 2

Mae chwarae yn broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Hynny yw, y plant a'r bobl ifanc fydd yn penderfynu a rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, trwy ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.

Un o nodweddion chwarae sy'n gofidio oedolion yn aml yw'r ffaith nad yw cynnyrch terfynol chwarae'n arbennig o bwysig i'r plentyn sy'n chwarae. Mae oedolion yn tueddu i ffafrio prosesau sy'n amlwg yn arddangos achos ac effaith[19]. Fodd bynnag, nid yw chwarae, fel arfer, yn dod â nodau penodedig – yn hytrach, mae'n broses a ddiffinnir gan y modd y gwneir pethau yn hytrach na'r hyn sy'n cael ei wneud. Er enghraifft, nid yw'n anarferol inni weld plant yn treulio oriau lawer yn cynllunio a threfnu cuddfan, dim ond i'w gadael wedi iddynt ei chwblhau. I'r plentyn, mae chwarae'n ymwneud â'r ennyd. Gall methu â gwerthfawrogi, yng nghyd-destun chwarae, bod proses yn bwysicach na chynnyrch, arwain at inni fod yn 'orddethol' ac yn amharod i dderbyn newid.

Gellid dadlau mai Egwyddor Gwaith Chwarae 2 yw'r un fwyaf dylanwadol ac mae'n seiliedig ar ddiffiniad o chwarae a ddatblygwyd gan Bob Hughes. Wrth galon y diffiniad hwn mae'r haeriad bod 'chwarae'n broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid'.

Golyga 'a ddewisir yn rhydd' y dylai plant allu gwneud dewisiadau heb bwysau i gydymffurfio neu i gyfranogi ac y dylai'r dewisiadau hynny fod yn ddewisiadau personol, ac yn rhydd rhag ymyrraeth neu gam-ddylanwad[20]. Golyga 'a gyfarwyddir yn bersonol' mai'r plentyn fydd yn rheoli'r modd y bydd y chwarae'n digwydd. 'Mae chwarae'n ymwneud â rhyngweithiadau uniongyrchol yn unig. Nid yw'n cael ei ddysgu'n agored, na'i arddangos'[21]. Ond nid yw chwarae'n weithgarwch cwbl unigol neu hunanol.


Wrth chwarae, bydd plant yn cyfaddawdu a chael eu harsylwi'n rheolaidd yn cymryd rhan mewn chwarae gyda ffrindiau ble nad ydyn nhw efallai'n chwarae'r rôl fyddai orau ganddyn nhw. Yn yr achosion hyn, ceir rhywfaint o gydsyniad ymysg y chwaraewyr, yn yr un modd efallai y bydd chwaraewr yn plygu i ewyllys plentyn arall ar adegau, efallai ei bod hi'n well weithiau i chwarae gêm rhywun arall yn hytrach na pheidio chwarae'r un gêm o gwbl? Fel gweithwyr chwarae gallem gadw llygad wyliadwrus ar yr agweddau chwarae hyn a cheisio sicrhau bod cyfleoedd ble y gall pob plentyn gael rhyddid dewis a chyfarwyddo personol gymaint ag y maent ei angen.

Mae chwarae'n wobr ynddo'i hun ac nid yw'n galw am unrhyw nodau allanol. Bydd plant yn chwarae i gael hwyl. Nid am unrhyw reswm ymarferol na budd datblygiadol amlwg. Daw'r ysfa i chwarae o'r tu mewn, er ei bod yn bosibl iddo gael ei sbarduno gan unrhyw un o nifer o wahanol symbyliadau yn yr amgylchedd. 'Mae'r gwerthfawrogiad yma o chwarae fel cais parhaus i ganfod symbyliadau sy'n bersonol berthnasol, yn awgrymu bod chwarae'n gynhenid, hynny yw, ei fod yn codi o gymhellion ac awyddau i ymgysylltu â'r amgylchedd, blys ar gyfer chwilio am brofiadau sy'n werth chweil yn emosiynol'[22]. Caiff chwarae ei nodweddu gan y modd y bydd plentyn yn ymddwyn, yn hytrach na'r hyn y bydd yn ei wneud.

O'u hystyried ar y cyd, mae Egwyddorion Gwaith Chwarae 1 a 2 yn sefydlu'r hyn yr ydym yn ei gredu am chwarae a pham a sut y bydd plant yn cymryd rhan ynddo. Yn yr adran ganlynol byddwn yn archwilio rhai o'r syniadau, y cysyniadau a'r damcaniaethau am ddatblygiad plant ac am blentyndod sydd wedi dylanwadu, ac sy'n dal i ddylanwadu, ar ein dealltwriaeth o blant a'u chwarae ac, o ganlyniad, sy'n bwysig i bobl sy'n ymarfer gwaith chwarae. Yn dilyn hyn, byddwn yn dychwelyd at yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac yn ystyried Egwyddorion 3 i 8, sy'n edrych ar yr hyn sy'n arbennig am waith chwarae a'r hyn y mae gweithwyr chwarae'n ei wneud.



# Y plentyn yn chwarae: datblygiadaeth a'r tu hwnt



Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n egluro'n gwbl blaen y caiff 'dawn plant ac arddegwyr ar gyfer datblygiad cadarnhaol ei gyfoethogi o gael mynediad i'r ystod ehangaf posibl o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae'[23] a bod chwarae'n allweddol ar gyfer datblygiad iach. Mae'r term 'datblygiad dynol' yn cyfeirio at y broses y byddwn yn tyfu ac yn newid trwyddi trwy gydol ein hoes[24]. Mae'r newidiadau hyn yn fwyaf dramatig yn ystod datblygiad cynenedigol, babandod a phlentyndod ac, o'r herwydd, mae'r mwyafrif o ddamcaniaethau datblygiad yn ddamcaniaethau datblygiad plant hefyd. Tan yn gymharol ddiweddar mae astudio'r plentyn wedi ei lywio gan seicoleg ddatblygiadol[25].

Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu rhai o'r damcaniaethau datblygiad dynol mwyaf dylanwadol yn ogystal â rhywfaint o agweddau amgen eraill, mwy diweddar. Yn anochel, mae gormod o ddamcaniaethau cystadleuol i gyfeirio at bob un ohonynt yn yr adran hon, felly mae'r detholiad wedi ei gyfyngu i nifer fechan o ddamcaniaethwyr / damcaniaethau a syniadau allweddol sydd wedi cael dylanwad sylweddol ac sydd wedi arddangos diddordeb sylweddol mewn chwarae plant.

Wrth gwrs, 'dyw hyn ddim yn golygu mabwysiadu – yn llawn neu'n rhannol – unrhyw un o'r damcaniaethau hyn heb ystyried a myfyrio'n ofalus. Gall astudio'r damcaniaethau datblygiadol hyn ehangu ein hystyriaeth o ddatblygiad plant a'n hannog i fabwysiadu agwedd mwy rhyngddisgyblaethol tuag at chwarae. Mae hefyd yn darparu gwell dealltwriaeth i'r meddwl y tu ôl i nifer o broffesiynau eraill sy'n gweithio gyda phlant. Er mwyn myfyrio ar ein harfer ein hunain, yn ogystal â chymryd rhan mewn trafodaethau ac eiriolaeth yn effeithlon, bydd angen inni ddeall safbwyntiau pobl eraill sy'n gweithio gyda phlant mewn gwahanol ffyrdd ac o wahanol bersbectifau.

## Damcaniaeth ymlyniad

Roedd Bowlby (1907-1990) yn credu, er mwyn ffynnu'n emosiynol, bod plant angen perthynas ofalgar, glòs a pharhaus[26]. Roedd y cysylltiad emosiynol hwn o leiaf cyn bwysiced â maeth a lloches. Mae astudiaethau diweddar wedi dangos bod ymlyniad cadarn, ble mae gofalwyr yn ymateb yn gyson mewn ffyrdd cysurlon, yn cyfrannu at ddatblygiad ymenyddol iach ac yn enwedig i'r ardal o'r ymennydd sy'n bennaf gyfrifol am reoleiddio emosiynol a gwytnwch[27]. Mae astudiaethau eraill wedi canfod bod gan ymlyniadau emosiynol cadarn oblygiadau ar gyfer y ddawn i arddangos empathi a llunio cyfeillgarwch gyda phobl eraill[28] yn ogystal ag ar gyfer chwaraegarwch cyffredinol[29].

### Ymlyniad a chwarae

Fe wnaeth Bowlby[30] ei hun haeru y gallai archwilio, chwarae deheuig a meistrolaeth amgylcheddol ddim ond digwydd pan fo'r plentyn yn teimlo ymlyniad cadarn. Disgrifia Creasey a Jarvis[31] sut y byddai plentyn ag ymlyniadau ansicr, mewn egwyddor, yn llai tueddol i archwilio ei amgylchedd, allai yn ei dro arwain at lai o ddiddordeb mewn deunyddiau chwarae, chwarae gwrthrych llai deheuig, a llai o sbarduno chwarae cymdeithasol. Fodd bynnag, maent yn ein hatgoffa bod Bowlby yn ystyried archwilio a chwarae fel canlyniadau'n hytrach nag fel rhagarweinwyr i berthnasau ymlyniad cadarn.

Disgrifia Howard a Mcinnes[32] sut y mae chwarae'n cyfrannu at ddatblygiad iach cysylltiadau ymlyniad cynnar, er enghraifft, trwy'r gemau cyntaf rhwng y plentyn a'i ofalwr pennaf – ei fam, gan amlaf – fel gemau pi-po neu gemau cosi. Mae'r rhain yn cynnig sail gadarn o ble y gall plant archwilio'r byd o'u hamgylch. Adroddodd Coplan *et al*[33] bod plant ifanc sydd ag ymlyniadau cadarn yn debyg o feddu ar arddulliau chwarae mwy cymhleth, mwy o ymgysylltu cymdeithasol cadarnhaol, a llai o ataliaeth ymddygiadol na'r rheini sydd â pherthnasau ymlyniad ansicr. At hynny, wrth iddyn nhw ddatblygu, roedd y plant sicr hyn yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwarae cymdeithasol.

Yn eu trosolwg o safbwyntiau cyfoes ar chwarae, noda Lester a Russell[34] bod chwarae, o oedran cynnar, yn tyfu'n broses bwysig ar gyfer datblygu'r ddawn i wahaniaethu rhwng yr hunan ac arall ac ar gyfer priodoli gwerth i gyfathrebu geiriol a di-eiriau. Yn y bôn, mae'n tyfu'n allweddol ar gyfer y ddawn i ddeall teimladau personol a theimladau pobl eraill. Mae i'r ddawn yma i reoleiddio emosiynau, ac unrhyw ymddygiad arall ddaw yn ei sgîl, ganlyniadau fydd yn para gydol oes.

### Beirniadaeth

Cafodd gwaith Bowlby ei feirniadu am fod yn seiliedig ar adran gul o'r boblogaeth ac am ganolbwyntio ar y fam fel y gofalwr pennaf. Mae gan ddiwylliannau eraill arferion magu plant gwahanol yn aml ble mae rhwydwaith o oedolion, fel y teulu estynedig, yn gofalu am y plentyn. Er ei fod yn gyffredinol gefnogol o'r ddamcaniaeth, noda Pendry[35] y gall ymlyniad gael ei effeithio hefyd gan natur a nodweddion personoliaeth y plentyn.

## Damcaniaethau datblygiad personoliaeth

### Sigmund Freud

Mae damcaniaethau seicdreiddiol yn tarddu o waith cynnar Freud (1856-1939). Dylanwadodd gwaith Freud ar lawer o seicolegwyr nodedig yn cynnwys Anna Freud, Melanie Klein, Carl Jung, Erik Erikson, a Donald Winnicott. Honnodd Freud bod datblygiad yn digwydd wrth i'r unigolyn fynd trwy nifer o gyfnodau seicorywiol. Mae ymddygiad dynol yn ganlyniad y frwydr i gydbwyso gofynion adran plesergar ein personoliaeth – yr 'id' – â'r adran sy'n gyfrifol am y gydwybod a safonau moesol ein rhieni a'n cymdeithas – yr 'uwch-ego'. Caiff y gofynion cystadleuol hyn eu cydbwyso a'u cyflawni mewn ffyrdd realistig a phwrpasol gan drydedd elfen personoliaeth – yr 'ego'.

### Freud a chwarae

Roedd gan Freud[36] ddiddordeb mewn nifer o elfennau o ymddygiad dynol, gan gynnwys chwarae plant. I Freud, roedd chwarae'n fodd o fynegi a gweithio allan emosiynau negyddol, a chynigodd bod chwarae'n cael ei ddefnyddio gan blant at bedwar diben gwahanol:

- **Cymodi** – mae chwarae'n fodd o ddod i delerau â digwyddiadau trawmatig
- **Boddhad** – defnyddir chwarae i fodloni dymuniadau chwantus
- **Dyhead** – mae chwarae'n ein galluogi i sicrhau gwireddu dymuniadau. Trwy chwarae gallwn altro realiti yn rhywbeth yr ydym yn dymuno ei fod
- **Ailadroddiad** – mae chwarae trwy sefyllfa drosodd a throsodd yn arbennig o bwysig gan ei fod yn caniatáu i broblemau gael eu datrys ac inni ennill rheolaeth dros deimladau sy'n ein poeni.

### Eric Erikson

Cafodd Eric Erikson (1902-1994) ei ddylanwadu'n fawr gan Freud ac fel Freud, roedd yn credu y bydd bodau dynol yn datblygu mewn camau. Fodd bynnag, yn wahanol i Freud, roedd Erikson yn meddwl bod pobl yn dal i ddatblygu trwy gydol eu hoes. Caiff syniadau Erikson eu tynnu o ddatblygiad seicolegol cynnar y plentyn yn ogystal â'u rhyngweithiad cymdeithasol â'r amgylchedd[37]. Mae wyth cyfnod penodol i'r ddamcaniaeth datblygiad hon sy'n cwmpasu oes gyfan person.

Ym marn Erikson, bydd ymdeimlad person o'r hunan (ego), yn datblygu trwy lwyddo i ddatrys y 'trobwyntiau', neu'r cyfnodau, penodol y bydd yn eu profi trwy gydol ei oes. Mae 'trobwyntiau' yn ganlyniad y rhyngweithiad rhwng yr unigol sy'n datblygu a gofynion, disgwyliadau ac agweddau pobl bwysig yn yr amgylchedd cyfagos. Roedd Erikson yn ystyried y trobwyntiau hyn fel rhai seicogymdeithasol, mewn geiriau eraill, maent yn cynnwys gwrthdaro rhwng anghenion seicolegol y person ac anghenion cymdeithas. Bydd datrys y trobwyntiau hyn ym mhob cyfnod yn annog dysg a datblygiad iach, er bod y datrysiadau penodol yn dibynnu ar fagwraeth y plentyn, gofynion yr amgylchedd, a chyfraniadau'r plentyn ei hun.

Trwy gydol plentyndod bydd rhaid i blant lywio trobwyntiau Ymddiriedaeth yn erbyn Drwgdybiaeth, Annibyniaeth yn erbyn Cywilydd ac Amheuaeth, Menter yn erbyn Euogrwydd, Diwydrwydd yn erbyn Israddoldeb a Hunaniaeth yn erbyn Dryswch Rôl a thrwy oedolaeth, Agosatrwydd yn erbyn Unigrwydd, Cynhyrchiant yn erbyn Marweidd-dra ac yn olaf, Uniondeb yn erbyn Anobaith.

### Erikson a chwarae

Gosododd Erikson gryn bwysigrwydd ar chwarae ar gyfer datblygiad plant gan fod chwarae'n darparu allfa gymdeithasol dderbyniol ar gyfer cymhellion a greddfau anymwybodol[38]. Trwy chwarae, gall plant ennill rheolaeth dros brofiadau allai fod yn boenus iddynt neu sy'n bygwth eu hymdeimlad o'r hunan (ego) – gallant chwarae allan bryderon a dymuniadau a thrwy hynny ddod i delerau â gofynion eu hamgylchedd cymdeithasol. O ganlyniad, trwy arsylwi plant yn chwarae, roedd Erikson yn credu ei bod yn bosibl dysgu am eu pryderon.


Roedd Erikson[39] yn credu bod chwarae'n datblygu mewn tri cham:

1. Yn gyntaf, a gan ddechrau o'u geni, bydd plant yn chwarae â'u synhwyrau a'u cyrff, fel archwilio bysedd a bodiau eu traed. Galwodd Erikson hyn yn chwarae 'awto-gosmig'. Mae'r chwarae yma'n cynnwys gweithredoedd a lleisioli ailadroddus. Bydd plant hefyd yn chwarae â'r bobl sydd ar gael, er enghraifft, trwy ymarfer bloedd chwareus i weld beth fydd yn gwneud i'w fam ail-ymddangos.
2. Yn yr ail gam, fel plant bach ifanc, bydd plant yn dechrau defnyddio teganau bychain. Trwy allanoli eu teimladau ar eu teganau byddant yn dechrau ennill meistrolaeth dros eu profiadau. Mae Erikson yn galw'r cam hwn yn 'feicrosffer'.
3. Yn olaf, ar oedran ysgol feithrin bydd plant yn dysgu chwarae â phlant eraill ac maent yn gallu delio'n well â gofynion cymdeithasol. Trwy gemau a chwarae â'u cyfoedion byddant yn datblygu barn gyffredin am y byd. Galwodd Erikson y cam hwn yn 'facrosffer'.

Mae pob cam yn ymgorffori'r cam blaenorol, felly, er enghraifft, mae'r trydydd cam – y macrosffer – yn cynnwys elfennau o'r ddau gam blaenorol – y meicrosffer a'r chwarae awto-gosmig. Mae pob un o'r camau hyn – meistrolaeth dros y corff, meistrolaeth dros wrthrychau, a meistrolaeth mewn rhyngweithiadau cymdeithasol – yn datblygu ego'r plentyn ac yn ei alluogi i sicrhau meistrolaeth. Cynigodd Erikson mai 'chwarae plant yw'r ffurf blentynnaidd o'r ddawn ddynol i ddelio â phrofiad trwy greu sefyllfaoedd model a meistroli realiti trwy arbrofi a chynllunio'[40].

### Beirniadaeth

Tra ei fod yn cynnig damcaniaeth gynhwysfawr, mae Erikson wedi ei feirniadu am fod yn annelwig ynghylch achosion datblygiad. Er enghraifft, mae Shaffer[41] yn gofyn, 'Pa fathau o brofiadau fydd rhaid i blentyn eu cael er mwyn datblygu annibyniaeth fel plentyn bach?' 'Dyw hyn ddim yn eglur. Nid yw Erikson yn bendant iawn ynghylch materion o'r fath ac, yn hytrach, mae'n cynnig safbwynt disgrifiadol yn hytrach na safbwynt esboniadol o ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol dynol. Beirniadodd Gilligan[42] Erikson am bortreadu seicoleg wrywaidd a methu cynnwys gwahanol batrymau ar gyfer datblygiad merched a menywod. Mae'n dadlau bod ei fodel yn cymryd mai gwerthoedd gwrywod Ewropeaidd sy'n normal. Mae Weeber[43] yn disgrifio sut y mae anabledd mewn plentyndod yn herio normalrwydd tybiedig model datblygiad Erikson. Mae cysylltu meistrolaeth gorfforol â datblygiad seicogymdeithasol yn broblem ar gyfer plant ac oedolion anabl fydd, efallai, fyth yn gallu cyflawni meistrolaeth o'r fath.




## Damcaniaethau datblygiad dirnadol

Mae dirnadaeth yn cynnwys teimlad, canfyddiad, delweddaeth, cofusrwydd, atgof, datrys problemau, rhesymu, a meddwl[44]. Yma, byddwn yn edrych ar ddamcaniaeth datblygiad dirnadol Piaget yn ogystal â damcaniaeth ddirnadol gymdeithasol-ddiwylliannol Vygotsky. Mae'r ddwy ddamcaniaeth wedi cael dylanwad sylweddol ar y modd yr ydym yn deall datblygiad dirnadol plant a chwarae plant.

### Jean Piaget

Bu syniadau Piaget (1896-1980) yn hynod o ddylanwadol ac mae ei ddamcaniaeth wedi tyfu i fod yn llais amlwg iawn ym meysydd addysg a gofal plant yn y byd lleiafrifol. Sail ei ddamcaniaeth oedd bod plant yn ffurfio eu gwybodaeth eu hunain mewn ymateb i'w profiadau. Roedd yn credu bod plant yn cael eu cymell yn gynhenid i ddysgu ac, o'r herwydd, y gallent ddysgu llawer o bethau heb ymyrraeth oedolion. Cyfeiriodd Piaget at y broses o ddatblygiad dirnadol fel cyfaddasu. Mae cyfaddasu'n cynnwys tair proses: cymathiad, cymhwysiad a chydbwysedd. Cymathiad yw'r broses o dderbyn gwybodaeth neu brofiadau newydd a'u ffitio i mewn i syniadau sy'n bodoli eisoes. Mewn geiriau eraill, pan fo plentyn yn wynebu gwybodaeth newydd bydd yn gwneud synnwyr ohono trwy gyfeirio at yr hyn y mae'n ei wybod eisoes.

Cymhwysiad, ar y llaw arall, yw ble fo camgymhariad rhwng gwybodaeth bresennol y plentyn a'r wybodaeth newydd, fel bod rhaid iddo newid neu addasu ei feddyliau er mwyn ymgorffori'r profiad newydd.
Er enghraifft, mae plentyn bach sy'n eistedd wrth y bwrdd bwyd yn dechrau crïo'n sydyn a throi ei phen i ffwrdd pan mae dysgl bwdin o hufen iâ ac eirin gwlanog o dun yn cael ei gosod o'i blaen. Pan mae'r fam yn gofyn beth sy'n bod, mae'r plentyn yn ateb nad ydi hi am fwyta pysgod aur! Mae'r plentyn yn cymathu trwy osod y profiad newydd hwn mewn ffordd gyfredol o feddwl neu grŵp o feddyliau (bod popeth bychan oren, llysnafeddog yn bysgod aur). Wedi i'r fam ei sicrhau bod eirin gwlanog o dun yn ffrwythau, fel afalau a bananas, mae'r plentyn yn addasu neu'n cymhwyso ei meddyliau i ffitio â'r profiad newydd yma.

Mae cydbwysedd yn cyfeirio at y broses o gydbwyso'r angen (sicrhau ecwilibriwm) i gymathu gwybodaeth newydd â'r broses o gychwyn o'r dechrau â ffyrdd newydd o ddeall er mwyn cymhwyso gwybodaeth sydd ddim yn ffitio i mewn. Roedd Piaget yn credu

bod cydbwysedd yn broses hunanreolus fel bod cyfaddasiad ddim yn cael ei lywio'n ormodol gan unai gymathiad neu gymhwysiad. 'Mae cyfaddasiad yn gydbwysedd rhwng cymathiad a chymhwysiad'[45].

Dadleuodd Piaget[46] bod cyfres naturiol o ddatblygiad meddwl y mae rhaid i blant weithio trwyddi. Roedd rhaid i blant fod wedi cyrraedd cyfnod penodol er mwyn gallu dysgu cysyniadau newydd, o ganlyniad, i Piaget mae datblygiad yn arwain y dysg.

Amlinellodd y cyfnodau datblygiad dirnadol canlynol:

- **Y Cyfnod Synhwyraidd-symudol** – o enedigaeth i oddeutu dwy flwydd oed. Trwy gydol y cyfnod hwn bydd synhwyrau ac atblygiadau'r plentyn yn datblygu'n gyflym a byddant yn dysgu am eu cyrff a'u hamgylchedd cyfagos, fel arfer trwy brofi a methu. Tua diwedd y cyfnod hwn bydd plant yn sylweddoli bod gwrthrychau'n gallu bodoli ar wahân iddyn nhw – y cyfeirir ato'n aml fel 'parhauster gwrthrych'.
- **Y Cyfnod Cynweithredol** – o ddwy i saith mlwydd oed. Un nodwedd allweddol o'r cyfnod hwn yw datblygiad iaith plant. Mae plant yn y cyfnod hwn yn egosentrig – hynny yw, nid ydynt yn gallu gweld sefyllfa o safbwynt person arall ac maent yn cymryd bod pobl eraill yn profi'r un meddyliau a theimladau â hwy. Yn ystod y cyfnod hwn bydd plant yn tyfu'n fedrus gyda chwarae esgus a chwarae symbolaidd ac mae'n bosibl y byddant yn aml yn credu bod gan wrthrychau difywyd deimladau, fel doli neu dedi yn teimlo'n drist neu'n hapus.
- **Y Cyfnod Gweithredol Gadarn** – o 7 i 12 mlwydd oed. Gall plant yn y cyfnod hwn resymu am wrthrychau a digwyddiadau concrid neu ddiriaethol, a gallant gategoreiddio elfennau tebyg a gwahanol.
- **Y Cyfnod Gweithredol Ffurfiol** – o lasoed a thrwy oedolaeth. Gall plant feddwl yn ddwfn, gan gynnwys yn haniaethol ac yn ddamcaniaethol, a gallant ddychmygu canlyniadau, yn cynnwys oblygiadau eu meddyliau eu hunain a meddyliau pobl eraill.

Haerodd Piaget bod pob plentyn yn mynd trwy bob un o'r cyfnodau hyn yn eu tro – ac nad oes modd hepgor cyfnod. Fodd bynnag, fe wnaeth gyfaddef y gallai'r cyflymder y byddai plant yn symud ymlaen trwy'r cyfnodau hyn amrywio.

## Piaget a chwarae

Diffiniodd Piaget chwarae fel cymathiad cyffredinol bur, hynny yw, proses o dderbyn gwybodaeth newydd a'i ffitio â syniadau a chysyniadau am y byd sy'n bodoli eisoes. 'Chwarae yw pan fo'r plentyn yn ymarfer patrwm gweithredu am y boddhad yn unig a geir yn y teimladau o feistrolaeth sy'n seiliedig ar brofiadau blaenorol'[47]. Felly, yn namcaniaeth Piaget, mae chwarae'n cynnig pleser a chyfleoedd i ymarfer yr hyn sydd wedi ei ddysgu ond nid yw'n cyfrannu at strwythurau dirnadol newydd. Fe ddisgrifiodd chwarae fel 'arddangosfa hapus o weithredoedd hysbys'[48].

Dosbarthodd Piaget[49] chwarae yn bedwar math, sy'n gyfochrog â'i bedwar cyfnod o ddatblygiad dirnadol:

- **Chwarae ymarfer** – mwynhau teimladau corfforol, ailadrodd ac amrywio patrymau symud, pethau a gweithredoedd cyffredin
- **Chwarae adeiladu** – defnyddio gwrthrychau a deunyddiau mewn modd trefnus i greu rhywbeth
- **Chwarae symbolaidd** – amnewid y real gyda'r ffug / rhoi ystyr i'r difywyd
- **Gemau â rheolau** – rheolau, ffiniau, trefniadaeth, gwrthrychedd.

Fe awgrymodd, wrth i blant ddatblygu ac arddangos meddwl mwy cymhleth felly y byddai cymhlethdod eu chwarae'n cynyddu hefyd. Roedd yn credu y byddai'r mwyaf cymhleth – gemau â rheolau – yn cynyddu mewn nifer gydag oedran ac mai'r rhain yw 'bron yr unig rai sy'n parhau yn y cyfnod oedolaeth'[50]. Mewn geiriau eraill, wrth i blant ddatblygu meddwl haniaethol cymhleth ni fyddai angen chwarae mwyach.

## Beirniadaeth

Er bod syniadau Piaget wedi bod yn hynod o ddylanwadol, fe'i beirniadwyd mewn nifer o feysydd. Yn bwysicaf oll, mae ymchwilwyr wedi cwestiynu cywirdeb a hyd yn oed fodolaeth cyfnodau datblygiadol Piaget. Yn gyffredinol, bydd datblygiad yn digwydd yn raddol iawn, a noda Watts *et al*[51], tra bo rhai damcaniaethwyr yn cytuno bod datblygiad dirnadol yn digwydd mewn nifer cydlynol o gyfnodau[52], mae eraill yn haeru bod datblygiad yn broses llawer mwy cymhleth sy'n digwydd dros nifer o wahanol feysydd[53]. Mae damcaniaeth Piaget yn edrych yn benodol ar ddatblygiad dirnadol ac yn taflu fawr ddim goleuni ar agweddau eraill o ddatblygiad.

Nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi haeriad Piaget na all plentyn feistroli tasgau mewn un cyfnod tan ei fod o neu hi wedi meistroli'r tasgau yn y cyfnodau blaenorol. Er enghraifft, mae ymchwilwyr wedi canfod fod plant pump i chwe blwydd oed â gallu meddwl gweithredol gadarn, tra bo Piaget yn credu nad oedd hyn yn digwydd tan saith i un ar ddeg mlwydd oed[54].

Yn gyffredinol, fe wnaeth Piaget danbrisio doniau plant oherwydd bod ei brofion weithiau'n rhy ddryslyd i'r plant eu deall. Datblygodd Piaget ddamcaniaeth datblygiad cyffredinol oedd yn anwybyddu gwahaniaethau unigol ac oedd yn talu fawr ddim sylw i amodau diwylliannol, sefyllfa ddibynnol a chymdeithasol. Fodd bynnag, llwyddodd Donaldson[55] i ddangos bod modd i blant, pan oeddent yn defnyddio gwrthrychau mwy cyfarwydd, arddangos gwybodaeth y tu hwnt i gyfnod awgrymedig Piaget. Oherwydd i Piaget ddiffinio plant o ran yr hyn na allent ei wneud o'i gymharu â phlant hŷn, galwyd ei agwedd yn fodel diffyg ac fe'i beirniadwyd yn benodol gan y rheini sy'n mabwysiadu agwedd gymdeithasegol tuag at astudio plentyndod.

'Mae cymdeithasegwyr plentyndod yn beirniadu seicoleg am ei ffocws ar ddogfennu doniau sy'n berthnasol i oedran ar draul ymchwilio beth y mae'n ei olygu i fod yn blentyn. Maent yn dadlau bod yr agwedd ddatblygiadol yn arwain at ddealltwriaeth didoledig a thlawd o anghenion plant.'[56]

Yn olaf, mae Piaget wedi ei feirniadu am ei safbwynt ar chwarae. Mae Sutton-Smith[57] yn beirniadu Piaget am awgrymu bod chwarae'n un o swyddogaethau dirnadaeth ond heb egluro natur y swyddogaeth honno. Mae Sutton-Smith yn dadlau nad yw chwarae'n syml yn copïo realiti – yn aml iawn mae'n ei ystumio. Yn fwy cyffredinol, mae Sutton-Smith yn cynnig safbwynt llawer ehangach gyda chwarae'n cael ei ffurf unigryw ei hun sy'n mynd y tu hwnt i ddim ond swyddogaeth ddirnadol, affeithiol neu bwrpasol. Mae Sutton-Smith hefyd yn herio'r haeriad bod chwarae'n tyfu'n gynyddol realistig â datblygiad cyffredinol. Yn hytrach, mae'n mynnu ei fod yn tyfu'n fwy cymhleth a dychmygus[58].

## Lev Vygotsky

Roedd Lev Vygotsky (1896-1934), fel Piaget, yn credu bod plant yn ffurfio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn weithredol – ac nad ydynt yn ddim ond derbynwyr goddefol. Fodd bynnag, yn wahanol i Piaget, pwysleisiodd Vygotsky bwysigrwydd prosesau cymdeithasol mewn dysg ac yn enwedig iaith a'r diwylliant sy'n amgylchynu'r person, gan gredu bod plant yn dysgu orau trwy ryngweithio cymdeithasol, a bod dysgu'n weithredol gydag eraill yn caniatáu iddynt fabwysiadu gwerthoedd a normau eu cymdeithas benodol hwy. Yn wahanol i Piaget, nid yw damcaniaeth Vygotsky yn cynnwys cyfnodau datblygiad ac mae'n dadlau bod dysg plant yn arwain, yn hytrach na'n dilyn, eu datblygiad.

Roedd Vygotsky yn credu bod iaith yn bwysig wrth ddatblygu meddwl haniaethol. Yn aml bydd llawer o blant ifanc yn siarad â'i hunain fel rhan o'r hyn a elwir yn sgwrs breifat yn ystod chwarae. Er enghraifft, gallent ddisgrifio sut y maent yn chwarae â thegan penodol neu roi sylwebaeth barhaus ar yr hyn y maent yn ei wneud. Fel arfer, bydd plant hŷn yn mewnoli'r sgwrs yma, er y gall ailymddangos pan fyddant yn wynebu tasg anodd neu heriol. Roedd Vygotsky[59] yn meddwl bod y sgwrs breifat hon yn pontio rhwng sgwrs gymdeithasol a sgwrs fewnol neu oddi mewn. Roedd yn bwysig yn y broses o hunanddisgyblaeth o ran ymddygiad a chynllunio, a gellid ei defnyddio i hwyluso meddwl a chyfoethogi'r dychymyg.

Cysyniad allweddol yng ngwaith Vygotsky yw'r parth datblygiad procsimol (*zone of proximal development* neu ZDP). Mae'r cysyniad hwn yn egluro'r modd y bydd plentyn yn dysgu gyda chymorth eraill ac, yn benodol, mae'n cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng yr hyn y gall y plentyn ei gyflawni'n annibynnol – lefel eu gwir ddatblygiad – a'r hyn y gallant ei gyflawni gydag arweiniad partner sy'n fwy deallus – lefel eu rhyngweithiad posibl.

Er mwyn defnyddio'r ZPD yn effeithlon dylai unrhyw ymyrraeth fod y tu hwnt i lefel datblygiadol presennol plentyn fel ei fod yn heriol ond nid mor bell ymlaen fel nad yw'n ddealladwy[60]. Caiff y grefft o gefnogi plentyn yn effeithiol i ddatblygu gwybodaeth newydd ei wneud yn fedrus gan gyfoedion mwy gwybodus ond gellid ei wneud yn effeithiol hefyd gan oedolion a gweithwyr proffesiynol fydd yn sgaffaldio'r sgiliau neu'r wybodaeth newydd mewn modd sensitif trwy




eu cysylltiad â'r plentyn. Mae'n debyg na fydd dweud wrth blentyn sydd erioed wedi pobi cacen sut i wneud un o fawr ddim help, ond bydd gwneud cacen gwpwl o weithiau gyda phlentyn a thrafod beth sy'n digwydd yn debygol o arwain at weld y plentyn yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i greu eu cacen eu hunain.

## Vygotsky a chwarae

Roedd Vygotsky yn credu bod chwarae'n hynod o ddylanwadol yn natblygiad plant, er iddo ganolbwyntio ei sylw ar chwarae dramatig a smalio bach. Mae gwaith Vygotsky yn cwmpasu rhai o'r amwyseddau a'r croesebau amlwg y mae chwarae'n eu cynnwys, megis y plentyn yn ymddangos fel pe bae'n chwarae'n rhydd ond eto'n ufuddhau i reolau'r gêm[61]. Mae chwarae'n dysgu'r 'plentyn i lywio ei hymddygiad, nid yn unig trwy ganfyddiad uniongyrchol o wrthrychau neu trwy'r sefyllfa sy'n effeithio'n uniongyrchol arni, ond hefyd trwy ystyr y sefyllfa hon'[62]. Mae Vygotsky yn nodi enghraifft o ddwy chwaer yn chwarae bod yn chwiorydd. Trwy fabwysiadu'r rolau hyn, mae'r chwiorydd yn dysgu'r rheolau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â bod yn chwiorydd a, thrwy hynny, gael eu cymdeithasoli.

Roedd Vygotsky yn credu bod chwarae yn hwyluso datblygiad dirnadol a dysg newydd. Fodd bynnag, roedd yn meddwl bod y berthynas rhwng chwarae a datblygiad yn un anuniongyrchol. Mae'n haeru 'mewn chwarae, mae gweithredu'n israddol i ystyr, ond mewn bywyd go iawn, wrth gwrs, mae gweithredu'n gorbwyso ystyr. Felly, mae'n gwbl anghywir i ystyried chwarae fel prototeip gweithgarwch bob dydd plant a'i ffurf amlycaf'[63]. Er hynny, mae'n haeru bod 'y plentyn yn symud ymlaen, yn y bôn, trwy weithgarwch chwarae'[64] ac mai dyma'r ffynhonnell bwysicaf mewn datblygiad dan oedran ysgol.

## Beirniadaeth

Mae Vygotsky'n cael ei feirniadu'n aml am osod gormod o bwyslais ar ddysgu cymdeithasol[65]. Noda Brown[66] y gall syniadau megis y parth datblygiad procsimol gael eu defnyddio, yn gwbl anghywir, fel esgus am ymyrraeth oedolion mewn chwarae plant, ac am y rheswm hwnnw caiff y ZPD ei wrthod yn aml fel syniad sy'n cynrychioli agwedd oedolion sy'n rhy ymyraethol. Er hynny, mae Brown[67] yn cydnabod mai'r ZPD yn aml yw'r union fecanwaith fydd yn galluogi plant i ddysgu a datblygu tra eu bod yn chwarae.

## Damcaniaethau ecolegol

Mae damcaniaethau ecolegol yn ystyried y berthynas rhwng y plentyn a'i amgylchedd cymdeithasol a chorfforol (yr ecoleg) ble mae'r plentyn yn datblygu. Mae ecolegwyr dynol yn credu y dylai bodau dynol gael eu hastudio'n gweithredu yn eu hamgylcheddau cymhleth, a'u bod yn destun prosesau esblygiadol tebyg i unrhyw rywogaethau eraill[68].

### Urie Bronfenbrenner

Mae Urie Bronfenbrenner (1917-2005) yn fwyaf adnabyddus am ei ddamcaniaeth systemau ecolegol o ddatblygiad plant, y model bioecolegol. Mae damcaniaeth Bronfenbrenner yn pwysleisio pwysigrwydd ffactorau amgylcheddol ar ddatblygiad plant. Mae'n haeru bod datblygiad yn ganlyniad i'r rhyngweithiadau cyd-ddibynnol rhwng unigolion a'u hamgylcheddau, hynny yw, mae'r amgylchedd yn dylanwadu ar y plentyn a'r plentyn yn dylanwadu ar yr amgylchedd. Mae'n pwysleisio dylanwad cyd-destunau neu 'haenau' niferus ar y plentyn a'i bod yn bwysig mabwysiadu safbwynt cynhwysol eang ar ddatblygiad.

Mae haenau ecosystem y plentyn yn nythu un o fewn y llall. Fe'i galwodd yn feicrosystem, mesosystem, ecsosystem, a macrosystem. Wedi ei wreiddio wrth galon y model mae'r plentyn, â'i gyfuniad personol unigryw o nodweddion. Mae agwedd Bronfenbrenner yn hepgor llawer o elfennau'r persbectif datblygiadol traddodiadol, megis tybiaethau ynghylch cyfnodau cyffredinol. Yn lle hynny, mae'n ystyried datblygiad plant fel cyfres o brosesau cyfnewidiol sy'n cynnwys y plentyn a'r amgylchedd, gan symud trwy amser[69].


### Bronfenbrenner a chwarae

Mae Göncü and Gaskins[70] yn mynnu y gall chwarae, a'i swyddogaethau datblygiadol, gael ei ddeall orau trwy ystyried rhai o'r cyfraniadau allanol i chwarae sy'n gweithredu ar a strwythuro mynegiant unigol plant. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai cymdeithasau'n annog chwarae, cyfranogaeth oedolion mewn chwarae, cael mynediad i neu ddarparu cyfleoedd cyfoethog ar gyfer chwarae tra, efallai, na fydd eraill. Yn yr un modd, efallai y bydd plant yn cael eu gwarafun gyfleoedd i chwarae'n rhydd oherwydd bod rhaid iddynt helpu eu teulu'n economaidd, neu efallai y byddant yn cael eu gwarafun oherwydd ofnau ynghylch diogelwch.

Bydd pob un o'r ffactorau amgylcheddol hyn yn cyfuno i ddylanwadu ar y plentyn a'u cyfleoedd i chwarae. Mae'n ymddangos bod model Bronfenbrenner mewn lle da i gynrychioli peth o'r cymhlethdod yma. At hynny, roedd Bronfenbrenner yn cydnabod bod chwarae'n helpu i ddehongli a chynrychioli cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol y plentyn. O ganlyniad, gellid defnyddio ei syniadau fel offeryn ar gyfer myfyrio.

### Beirniadaeth

Cafodd damcaniaeth Bronfenbrenner dderbyniad cadarnhaol, yn gyffredinol, ond un feirniadaeth yw tra y gall gynrychioli cymhlethdod bywyd go iawn, mae ei union realaeth yn golygu ei bod yn anodd i'w phrofi'n wyddonol. Beirniadaeth arall yw, tra ei fod yn addasadwy ac yn hyblyg, nid yw'r model yn darparu unrhyw fecanweithiau ar gyfer sut y mae datblygiad yn digwydd. Mae'n disgrifio 'beth' sy'n dylanwadu ar y plentyn ond nid 'sut'.




Mae'r hyn a gyflwynwyd ac a drafodwyd uchod yn gyflwyniad cryno, ond digon manwl, i rai o'r damcaniaethau datblygiadol blaenaf sy'n dylanwadu ar ddealltwriaeth am ddatblygiad plant ac arfer gyda phlant yn y byd lleiafrifol. Mae'n sicr iddo fod yn heriol i'w ddarllen i bobl sy'n newydd i'r pwnc – llongyfarchiadau am ddal ati.

Efallai yr hoffech ddeall mwy, oherwydd ym myrder y cyflwyniad hwn nid oes digon o amser i wir archwilio'r syniadau. Gallwch ddysgu llawer mwy trwy ddarllen ymhellach ond, gobeithio, y bu hwn yn gyflwyniad diddorol a defnyddiol. Dewch yn ôl ato os bydd angen a daliwch ati i fyfyrio ac ystyried y syniadau. Mae gweddill yr adran hon yn symud ymlaen i ystyried syniadau a chysyniadau mwy cyfoes ac mae'n haws i'w darllen.

## Y plentyn yn chwarae: y tu hwnt i ddatblygiadaeth

Hyd yma yn yr adolygiad hwn o ddatblygiad plant rydym wedi archwilio rhai o agweddau damcaniaethol blaenaf y ganrif ddiwethaf. O'r rhain, mae'r llais amlycaf wedi datblygu o waith Piaget ac mae hyn, weithiau, wedi cael ei adnabod fel 'datblygiadaeth'.

'Mae'r farn hon yn seiliedig ar y syniad bod plentyndod yn brofiad cyffredinol, ac y bydd pob plentyn yn ystod plentyndod yn symud ymlaen trwy gyfnodau unffurf, unionlin a graddol tuag at gyflwr o gwblhad a elwir yn oedolaeth'[71].

O'r safbwynt hwn, mae plant yn brin o ddoniau llawn yr oedolyn datblygedig, gelwir hwn yn aml yn safbwynt 'diffyg', ble y mae datblygiad plant yn cynrychioli cynnydd o symlrwydd i gymhlethdod, ac o'r afresymol i'r rhesymegol[72]. Yng nghyfnodau strwythuredig damcaniaeth Piaget caiff plant eu gwthio i'r cyrion, i bob pwrpas, tra eu bod yn datblygu cymhwysedd rhesymegol ac yn aros i ymuno â byd oedolion[73].

Yr anhawster gyda'r agwedd ddatblygiadaeth gaeth yw nad yw'n cael ei chefnogi gan astudiaethau hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach[74]. Mae'r persbectif traddodiadol hwn wedi cael ei herio fwyfwy gan farn fwy cyfnewidiol a chymhleth o ddatblygiad ble y mae genynnau, a'r amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a ffisegol yn rhyngweithio â'i gilydd[75]. Mae'r berthynas rhwng y systemau hyn yn ddeu-gyfeiriol, hynny yw, mae pob un yn effeithio ar ac, yn ei dro, yn cael ei effeithio gan y lleill. Er enghraifft, gan ddyfynnu ystod eang o waith ymchwil, awgryma Diamond bod yr hyn yr ydym yn ei feddwl a'i deimlo'n effeithio ar sut y mae ein cyrff yn gweithredu a'r modd y caiff ein genynnau eu mynegi. Yn gyfatebol, mae iechyd ein cyrff yn effeithio ar sut y byddwn yn meddwl a sut y bydd ein hymennydd yn gweithio.

Yn debyg iawn, mae Rogoff[76] wedi ysgrifennu y dylem ailystyried natur ddiwylliannol datblygiad dynol fel bod hynny hefyd yn tyfu'n broses gyffredin. 'Mae pobl yn cyfrannu at greu prosesau diwylliannol ac mae prosesau diwylliannol yn cyfrannu at greu pobl'[77].

Wrth i'r hen agweddau datblygiadaeth gael eu herio gan safbwyntiau holistig mwy cynhwysol o ddatblygiad, mae'n bwysig inni fabwysiadu cysyniad yr un mor eang o chwarae. Mae cyfnod anaeddfedrwydd estynedig plant yn caniatáu cyfleoedd i brofi, yn chwareus, ystod gyflawn o wahanol ymatebion i'r amgylchedd. Po fwyaf cymhleth a hyblyg yr organeb, yr hiraf fydd y cyfnod anaeddfedrwydd[78]. Yn ystod y cyfnod hwn bydd genynnau, hormonau, niwronau, gofal mamol, a'r amgylchedd ffisegol a chymdeithasol i gyd yn cyfrannu'n ddynamig at gynhyrchu ymddygiad[79].

Yn ôl y farn ddatblygiadol esblygiadol hon, mae chwarae'n gweithredu fel mecanwaith i sicrhau fod plant yn gallu addasu eu hymddygiad a chyfaddasu i amgylcheddau newydd yn well, trwy'r hyn y mae Sutton-Smith[80] yn ei alw'n 'amrywioldeb ymaddasol'. Bydd unigolion hyblyg a pharod i newid nid yn unig yn gallu ymateb yn well i heriau eu hamgylchedd, dros amser gall unigolion hefyd newid ac addasu'r amgylcheddau y maent yn byw ynddynt[81]. Fel hyn, byddant yn addasu'r amgylchedd ar gyfer eu hunain ac ar gyfer eraill yn y dyfodol.

Yng nghrynodeb eu hadroddiad cynhwysfawr *Play for a Change*, noda Lester a Russell[82]:

'Yn groes i'r gred drechol ei fod yn fodd o ddysgu sgiliau motor, dirnadol neu gymdeithasol penodol, mae chwarae'n cael effaith ar sylfeini pensaernïol datblygiad megis mynegiant genynnol a datblygiad ffisegol a chemegol yr ymennydd. Mae'r sylfeini hyn, yn eu tro, yn dylanwadu ar allu'r plentyn i gyfaddasu, i oroesi, ffynnu yn a ffurfio eu hamgylcheddau ffisegol a chymdeithasol. Ni ellir deall datblygiad a lles plant fel elfennau ar wahân i'w hamgylchedd.'

I weithwyr chwarae, mae'r casgliad hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cefnogi'r amodau sy'n annog ymddygiad hyblyg plant. Yn ymarferol, golyga hyn greu amgylcheddau hyblyg y gall plant eu haddasu a'u rheoli, ble y gallant archwilio a rheoli eu hamgylchedd; ble y gallant gwrdd a gwneud ffrindiau; ble y gallant arbrofi a chreu o dan eu telerau eu hunain ac yn eu ffyrdd eu hunain. Mae'n golygu cydnabod bod chwarae'n cyfrannu at agweddau lluosog o ddatblygiad ac mai ein rôl fel gweithwyr chwarae yw sicrhau na chaiff y broses hon ei pheryglu na'i chymryd trosodd gan agendâu eraill[83]. Yn y pen draw, mae'n golygu cydnabod bod chwarae'n mynd y tu hwnt i unrhyw un elfen unigol o ddatblygiad boed yn ffisegol, yn gymdeithasol neu'n seicolegol. Fel yr awgryma Sutton-Smith[84], mae'n hanfodol ar gyfer gallu plant i oroesi.

## Gwytnwch a lles

Un maes sy'n haeddu sylw pellach o ran datblygiad plant yw'r modd y mae plant, yn aml, yn gallu datblygu strategaethau ar gyfer goresgyn heriau a dod dros adfyd. Pam fod llawer o blant yn gallu ffynnu er gwaethaf tyfu i fyny dan amodau anodd a bygythiol?

Mae gwytnwch yn gysyniad dynamig, cymhleth a ddiffinnir yn aml fel pa mor dda y byddwn yn ymateb ac yn addasu i ddigwyddiadau a phrofiadau yn ein bywydau – y rhai da, yn ogystal â'r rhai heriol a phryderus iawn. Yn fanylach, mae Rutter[85] yn diffinio gwytnwch fel elfen sydd â nifer o nodweddion, yn cynnwys:

- Gwrthsafiad cymharol i risgiau amgylcheddol

**neu**

- Goresgyn straen neu adfyd

**neu**

- Canlyniad cymharol dda, er gwaethaf profiadau o risg.

Yn y modd hwn, nid yw gwytnwch yn golygu dim ond cymhwysedd cymdeithasol neu iechyd meddwl cadarnhaol. Gellir ystyried gwytnwch fel canlyniad ac fel proses. Gall plant gwydn wrthsefyll adfyd, rheoli ac ymdopi ag ansicrwydd a llwyddo i wella ar ôl trawma[86]. Nid yw gwytnwch yn nodwedd unigol – mae'n cynnwys nifer o wahanol brosesau a rhinweddau a cheir nifer o lwybrau tuag at wytnwch[87].

Noda Masten[88], wrth ddisgrifio gwersi allweddol o waith ymchwil diweddar ar wytnwch, ei fod yn elfen gyffredin. Yn wir, caiff pob plentyn ei eni â'r ddawn i ddatblygu'r nodweddion a geir yn gyffredin mewn unigolion gwydn: cymhwysedd cymdeithasol, datrys problemau, annibyniaeth, ymdeimlad o bwrpas ac optimistiaeth[89].


'Mae datblygiad gwytnwch yn ddim mwy na'r broses o ddatblygiad dynol iach – proses ddynamig ble y bydd personoliaeth a dylanwadau amgylcheddol yn rhyngweithio o fewn perthynas ddwyochrog, drafodaethol'[90].

Beth yw'r berthynas rhwng gwytnwch a chwarae plant? Ysgrifenna Lester a Russell[91] fod chwarae plant yn fecanwaith ar gyfer goroesiad ac amddiffyniad a'i fod yn cynnig y posibilrwydd i gyfoethogi gwytnwch a rhinweddau addasol. Gall hyn ddigwydd oherwydd bod chwarae'n gweithredu ar draws nifer o systemau addasiadol, yn cynnwys: pleser a mwynhad; rheoleiddio emosiynau; system ymateb i straen; ymlyniad; a dysg a chreadigedd[92].

Noda Lester a Russell, tra bo llawer o astudiaethau gwytnwch yn canolbwyntio ar straen a thrawma difrifol, 'y gallai'r ddawn i ddatblygu proffil gwytnwch gael ei sefydlu trwy brofiadau bob dydd, cyffredin, dinod'[93]. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys y pleser a'r mwynhad ddaw'n aml yn sgîl chwarae ac y gall yr 'effeithiau cadarnhaol hyn hybu gwytnwch, all gael effeithiau buddiol parhaol ar gyfer llawer o broblemau emosiynol'[94]. Noda Panksepp a Biven[95] y caiff gwytnwch ei gynyddu trwy ryngweithiadau corfforol chwareus uniongyrchol. Maent yn awgrymu bod y 'pleserau rhyngbersonol' hyn, yn drist iawn, yn cael eu hesgeuluso gan seicotherapi traddodiadol. Mae'n allweddol bwysig ein bod, fel gweithwyr chwarae, yn cydnabod a hwyluso chwarae corfforol o bob math, yn cynnwys chwarae gwyllt.

Bydd symiau sylweddol o straen, fel yr hyn a achosir gan drais, bwlio, gwahaniaethu, camdriniaeth, tlodi, gormod o draffig, a bod yn or-amddiffynnol, i gyd yn effeithio'n ddifrifol ar allu plant i chwarae ac yn niweidio iechyd a lles plant.

Ond, mewn sefyllfaoedd chwareus, gall dognau bychan o straen ac emosiynau negyddol y gellir eu rheoli fod yn fuddiol a hwyluso gwytnwch seicolegol tymor hir[96]. Mae chwarae'n caniatáu i blant greu a rheoli ffugiad rhithwir o'u meddyliau a'u cymhellion, a thrwy hynny gyfoethogi eu gwytnwch a'u dawn i ymgyfaddasu. Mae Lester a Russell[97] yn datgan bod chwarae'n mynd ati'n fwriadol i gyflwyno anhrefn, ansicrwydd a rhywfaint o straen er mwyn inni allu ei drechu. Maent yn pwysleisio mai'r pwynt allweddol ynghylch os yw'r lefel o straen yn arwain at fod yn fregus neu'n wydn, yw'r lefel o reolaeth sydd gan y plentyn drosto. Mae hwn yn fater gaiff ei ategu gan Brown a Patte[98] sy'n pwysleisio tri math o straen – cadarnhaol, goddefadwy a gwenwynig. Maent yn awgrymu bod y ddau gyntaf yn gwbl dderbyniol (ac yn fuddiol hyd yn oed), tra bo'r trydydd, gaiff ei nodweddu gan blant yn methu rheoli eu ffawd eu hunain, yn ddifrifol beryglus.



Nid yw pawb yn cytuno bod plant yn wydn, er enghraifft mae Perry[99] yn dadlau nad yw plant yn wydn, ond yn hytrach eu bod yn hydrin. Fodd bynnag, mae Hughes[100] yn datgan bod y ddwy nodwedd hon, yn syml, yn wahanol ddwyster o'r un peth. Caiff gwytnwch ei nodweddu gan anwadalwch, sirioldeb, hyblygrwydd a'r ddawn i adlamu – ac mae pob un o'r rhain hefyd yn nodweddion pwysig o natur profi a methu'r profiad chwarae. Gan dynnu ar Sutton-Smith[101], aiff Hughes ymlaen i awgrymu bod gwytnwch yn tarddu o dueddiad plant tuag at optimistiaeth afrealistig, egosentrigedd ac adweithedd. Mewn geiriau eraill, mae'n ganlyniad bod plant ifanc fel arfer yn:

- Tueddu i oramcanu eu doniau a'u sgiliau
- Tebygol o weld pethau o'u persbectif eu hunain
- Hynod o ymatebol i unrhyw symbyliadau y deuir ar eu traws.

Mae optimistiaeth plant yn eu gwneud yn ddyfalbarhaus, ac mae eu egosentrigedd – elfen negyddol yng nghynllun Piaget – yn golygu eu bod yn dysgu ac yn cofio'n fwy effeithlon. Tra bo gan chwarae rôl allweddol wrth gynyddu gwytnwch plant, mae rhaid inni gofio bod y:

'buddiannau hyn yn codi o natur anrhagweladwy, digymell, afresymol a nonsens chwarae, a hefyd o ymdeimlad plant o reolaeth. Mae angen i oedolion sicrhau fod yr amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ble y mae plant yn byw yn rhai sy'n cefnogi eu chwarae; neu fel arall gallai eu goroesiad, eu lles a'u datblygiad gael eu peryglu.'[102]

Noda Lester a Russell[103] bod sail gwytnwch yn gronfa ddigonol o'r 'pethau da' mewn bywyd bob dydd.

## Casgliadau a chysyniadau allweddol ar gyfer ymarfer

Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn bosibl bod yr adran gyntaf hon yn drwm i'w darllen, ac i'r rheini ohonoch y bu'n heriol iawn hoffem gymeradwyo eich ymroddiad. Mae plant yn fodau cymhleth a byddai gorsymleiddio'r cyfoeth o syniadau ac ymchwil sydd ar gael i'n hysbysu'n bychanu gwerth y plant eu hunain. Bydd greddf plentyn-ganolog dda ac agwedd chwarae-ganolog yn hanfodol i waith chwarae da, yn yr un modd â sail ddamcaniaethol gadarn.

O ystyried y nifer o wahanol agweddau a disgyblaethau proffesiynol sydd ynghlwm â'r astudiaeth o blentyndod a datblygiad plant, byddai'n hawdd cymryd bod fawr ddim cytundeb ynghylch sut y bydd datblygiad plant yn digwydd, ac yn sicr nad oes un ddamcaniaeth wyddonol integredig safonol. Fodd bynnag, gwelwyd ymdrechion i grynhoi cyflwr cyfredol gwybodaeth ar ddatblygiad plant. Yn UDA yn 2000, ac yn ddiweddarach yn 2012, daeth y cyrff ymgynghorol cenedlaethol ar wyddoniaeth, peirianneg a meddygaeth ynghyd i gynhyrchu adroddiad rhyngddisgyblaethol yn amlinellu'r wybodaeth orau oedd ar gael. Cyfeiriodd yr adroddiad, oedd yn dwyn y teitl *From Neurons to Neighborhoods*[104], at y cysyniadau allweddol canlynol am ddatblygiad dynol:

- Caiff datblygiad bodau dynol ei ffurfio gan ryngweithiad dynamig a pharhaus rhwng bioleg a phrofiad
- Mae diwylliant yn dylanwadu ar bob agwedd o ddatblygiad dynol
- Mae hunanddisgyblaeth yn un o gonglfeini datblygiad plentyndod cynnar
- Mae plant yn gyfranogwyr gweithredol yn eu datblygiad personol
- Perthnasau rhwng bodau dynol yw blociau adeiladu datblygiad iach
- Mae'r gwahaniaethau unigol rhwng plant yn ei gwneud yn anodd i wahaniaethu amrywiadau normal oddi wrth anhwylderau byrhoedlog a namau parhaus
- Mae datblygiad plant yn cynyddu ar lwybrau unigol gaiff eu nodweddu gan ddilyniannau ac annilyniant
- Caiff datblygiad ei ffurfio gan ffynonellau o wendid a ffynonellau o wytnwch
- Gall amseru profiadau cynnar fod o bwys, ond mae'r plentyn sy'n datblygu'n parhau i fod yn fregus i risgiau ac yn agored i ddylanwadau amddiffynnol trwy gydol ei fywyd cynnar
- Gellir altro datblygiad yn ystod plentyndod trwy ymyriadau effeithlon sy'n newid yr ods o blaid canlyniadau mwy addasol.

## Persbectifau ar blentyndod

### Hanes cryno

Wedi ei wreiddio mewn hanes gorllewinol ceir cysyniad o'r plentyn fel bod diniwed a chas, da a drwg, ac mae'r barnau anghyson hyn yn parhau i fod yn ddylanwadau pwerus hyd heddiw. Fe wnaeth Nietzsche[105] eu mynegi yn ei ddialecteg Apolonaidd yn erbyn Dionysaidd (yn fras iawn, y rhesymegol yn erbyn yr emosiynol). Awgryma Brown[106] bod y plentyn, yn y ddau achos, yn cael ei ystyried fel problem.

Yn y farn Apolonaidd, mae'r plentyn yn anaeddfed a ddim yn gwbl resymegol eto ac, o'r herwydd, yn cael ei ystyried fel 'diniweityn trafferthus' (sydd angen ei amddiffyn). Yn ôl y farn Ddionysaidd, caiff y plentyn ei ystyried gan rai fel 'ymgnawdoliad o'r diafol'. Cânt eu hystyried, ar y gorau, fel cnafon drygionus yn cael hwyl (ac angen cael eu rheoli).

Amlinella Kehily[107] dri dylanwad hanesyddol allweddol sydd wedi siapio syniadau cyfoes am blentyndod. Caiff ein barnau am ddiniweidrwydd plant eu holrhain yn ôl, gan amlaf, at waith Rousseau (1712-87) ac at awduron a beirdd rhamantaidd fel Blake, Wordsworth, a Dickens. Yn eu barn hwy, roedd y plentyn yn bur, yn ddiniwed ac yn naïf, ac ond yn cael ei lygru gan ei gysylltiad â'r byd mawr. Fe wnaeth John Locke (1632-1704) boblogeiddio safbwynt bod plant yn cael eu geni fel 'llechi glân' yn rhydd o syniadau greddfol a phechod gwreiddiol[108].



Fe fu'r farn ramantaidd ar blentyndod yn hynod o ddylanwadol, ac mae'n parhau i fod, yn enwedig yn y cyfryngau ac yn y cysyniad poblogaidd o blentyndod. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gefnogi gan wyddoniaeth genetaidd ac esblygiadol cyfoes. Yn olaf, dylanwad cynharach fyth oedd y foeseg Biwritanaidd a dysgeidiaethau'r Protestaniaid Calfinaidd cynnar, oedd yn ystyried bod y plentyn yn llygredig ac wedi ei dynghedu i bechu, oni bai ei fod yn cael ei reoli gan ei rieni.

Gellir gweld yr holl syniadau hyn wedi eu cyfuno yn oes Fictoria â'i agwedd anghyson a digon annymunol tuag at blant. Disgrifia Gubar[109] sut yr oedd plant, ar un llaw, yn cael eu dathlu'n sentimentalaidd fel y bod diniwed delfrydol a bod diwygwyr ac addysgwyr yn ymgyrchu i wella bywydau plant tlawd. Ar y llaw arall, bu'r diwygiadau'n araf ac roedd plant yn ffynhonnell o lafur rhad ar gyfer yr economi oedd ar ei thyfiant, gyda llawer o oedolion yn credu bod gwaith yn dda i blant gan fod 'y Diafol yn creu gwaith i ddwylo segur'.

Heddiw, caiff y cysyniad o blentyndod ei herio. Mae pob agwedd o fywyd plant yn destun dadlau ac archwiliad brwd. Yn y Gorllewin, mae llywodraethau'n cyhoeddi datganiadau ar bob agwedd o ddatblygiad, iechyd a lles, ac addysg plant; mae pryderon ynghylch camdriniaeth ac amddiffyn plant yn rhemp; ac mae rhieni a'u plant yn cael eu peledu â chyngor ac, yn aml iawn, fai. Ceir protestiadau'n aml am ordewdra, alcohol, cyffuriau, a throseddu, ac mae nifer fawr o lyfrau llwyddiannus yn cynnwys straeon am drawmâu plentyndod. Mae'n ymddangos bod pryderon oedolion ynghylch plant yn fwy nag erioed, ond eto ceir llawer o leisiau cystadleuol. Mae rhai'n edrych yn ôl ar 'oes aur' o ddiniweidrwydd a chyfrifoldeb tybiedig, tra bo eraill yn cyfeirio at greulondeb a chamdriniaeth flynyddoedd yn ôl. Beth yw ein persbectif presennol ar blentyndod?

### Beth ydym yn ei olygu wrth blentyndod?

I ddatblygiaethwyr, mae plentyndod yn gyfnod rhwng geni ac oedolaeth pryd y bydd plant yn tyfu ac yn aeddfedu'n gorfforol, yn ddirnadol, yn emosiynol, ac yn gymdeithasol. Yn eu barn hwy, caiff datblygiad ei rannu'n gyfnodau fel arfer, ac yn aml caiff datblygiad plant ei ystyried fel cyfres o gerrig milltir.

Mae syniadau seicoleg ddatblygiadol wedi bod yn hynod o ddylanwadol ar y modd y bydd oedolion yn meddwl am blant. Er efallai nad yw manylion penodol damcaniaethau unigol yn cael eu deall yn gyffredinol, mae oedolion yn gyffredinol yn ystyried bod plant yn mynd trwy gyfnodau penodol ac yn datblygu o annigonolrwydd cymharol i gymhwyster cymharol[110]. Nid yw'n anarferol i glywed rhywun yn dweud 'Mae o'n mynd trwy ryw gyfnod digon rhyfedd', neu, 'Fe wnaiff hi dyfu allan ohono'. Ond, mae'n bwysig nodi yma y byddwn, fel arfer, yn ystyried bod plentyndod yn dod i ben ar drothwy cyfreithiol oedolaeth. Bydd hyn, fel arfer, rhwng 15 a 21 mlwydd oed ac yn aml iawn, mewn nifer o wledydd, yn cynnwys y DU, yn 18 mlwydd oed.

Fodd bynnag, nid yw barn y datblygiaethwyr, o bell ffordd, yr unig ffordd o feddwl am blentyndod. Yn ystod y genhedlaeth ddiwethaf, gwelwyd newid sylfaenol mewn astudiaethau plentyndod. Mae dominyddiaeth presennol seicoleg ddatblygiadol wedi cael ei herio gan agweddau o astudiaethau cymdeithaseg a diwylliannol. Gan dynnu ar waith yr hanesydd Ffrengig, Philippe Ariès, mae cymdeithasegwyr modern wedi dadlau bod barnau am blentyndod wedi newid dros y canrifoedd ac nad yw plentyndod yn nodwedd naturiol na chyffredinol[111]. Yn hytrach, maent yn mynnu bod plentyndod yn ddyfais gymdeithasol.

Nid yw dehonglwyr cymdeithasol yn gwadu ffeithiau biolegol twf plant a'r broses o aeddfedu, fodd bynnag maent yn dadlau mai anaeddfedrwydd, yn hytrach na phlentyndod, sy'n nodwedd gyffredinol a naturiol o ddatblygiad plant. Yn yr agwedd hon mae James a Prout yn cynnig bod 'anaeddfedrwydd plant yn un o ffeithiau biolegol bywyd, ond mae'r ffyrdd y caiff ei ddeall a'i wneud yn ystyrlon yn un o ffeithiau diwylliant'[112]. Maent yn awgrymu mai nodweddion allweddol y ffordd newydd hon o feddwl yw'r canlynol:

- Mae plentyndod yn ddyfais gymdeithasol
- Mae plentyndod yn newidyn o ddadansoddiad cymdeithasol
- Mae diwylliannau a pherthnasau cymdeithasol plant yn deilwng o gael eu hastudio ynddynt eu hunain

- Caiff plant eu hystyried, ac fe ddylent gael eu hystyried, fel asiantau cymdeithasol gweithredol ac nid dim ond fel gwrthrychau goddefol strwythurau a phrosesau cymdeithasol
- Mae ethnograffeg (astudiaeth o bobl a diwylliannau) yn fethodoleg werthfawr ar gyfer astudio plentyndod
- Mae'r astudiaeth o blentyndod yn dylanwadu ar, ac yn cael ei dylanwadu gan, y broses o ail-greu plentyndod mewn cymdeithas.

Un o'r prif feirniadaethau o 'ddamcaniaethau pwysicaf' datblygiad plant, fel rhai o'r damcaniaethau y gwnaethom eu harchwilio'n gynharach yw, er gwaetha'r ffaith eu bod yn darparu llawer o wybodaeth, 'does ganddynt fawr ddim i'w ddweud am fywydau bob dydd plant. Nid yw plentyndod yn rhywbeth cyffredinol ac ni ellir ei ystyried fel categori unigol. Mae'r hyn y mae'n ei olygu a'r modd y caiff ei brofi'n dibynnu ar lawer o ffactorau'n cynnwys rhyw, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol, lleoliad ac yn y blaen. Caiff ei brofi'n wahanol: gan wahanol blant, mewn gwahanol fannau. Efallai, fel yr awgrymodd rhai, y dylem siarad am blentyndod yr unigolyn yn hytrach na phlentyndod yn gyffredinol?[113].

Y modd traddodiadol o ystyried plentyndod yw fel ymateb meithrinol, ond rheolaethol oedolion synhwyrol, doeth i blant anghenus ac anghymwys. Ysgrifenna Kehily:

'Yn y ddialog hon, mae'r plentyn wastad yn y broses o dyfu i fod, yn egin-oedolyn sydd ag anghenion addysgol penodol y dylai oedolion eu cymryd o ddifrif. Cyfrifoldeb oedolion yw darparu'r rheolaeth a'r addysg briodol i alluogi plant i ddatblygu i fod yn ddinasyddion aeddfed a chyfrifol.'[114]


Mae barnau sy'n seiliedig ar gymdeithaseg yn gwrthod y safbwyntiau hyn ac, yn hytrach, maent yn ystyried y plentyn sy'n datblygu fel person abl a gweithredol sydd â barnau sydd o bwys. 'Nid yw plant yn fodau dynol anghyflawn y dylid eu ffurfio ym mowld cymdeithas. Mae ganddynt eu hanghenion a'u dyheadau eu hunain, a hawliau y mae rhaid eu parchu. Yn bennaf oll, mae eu plentyndod yn gyfle.'[115]

Un feirniadaeth fynych am y dadleuon ar blentyndod yw eu bod yn syml, yn rhy aml o lawer, wedi adlewyrchu arferion diwylliannol penodol y byd lleiafrifol a bod y rhain wedi eu llunio gan nodau a disgwyliadau o ran parodrwydd plant ar gyfer mynd i'r ysgol[116] sy'n aml yn bwrw cysgod ar faterion eraill sydd yr un cyn bwysiced. Mae mynediad i ddŵr glân a glanweithdra; maetheg ddigonol; imiwneiddiad; amddiffyniad rhag trais, troseddu, masnachu pobl a'u gorfodi i weithio; addysg ddigonol a mannau diogel i chwarae, i gyd yn allweddol ar gyfer plant, ond mae'r gofynion sylfaenol hyn, yn aml iawn, yn brin. Mae enghreifftiau trawsddiwylliannol yn amlygu'r anghydraddoldebau hyn ond gallant hefyd herio ein safbwyntiau. Er enghraifft, ysgrifennodd Goldstein[117] bod plentyndod ym Mrasil yn fraint y cyfoethog a bron nad yw'n bodoli o gwbl ar gyfer y tlawd.

Tra bo Brown[118], yn disgrifio sut, er eu bod ymysg plant mwyaf materol ddifreintiedig Ewrop, bod y plant a astudiodd o gymuned y Roma yn Nhransylfania yn hynod o hapus. Mae'n gofyn os yw hyn oherwydd eu bod yn rhydd i chwarae sut a ble bynnag a phryd bynnag y mynnant, neu yw hyn oherwydd y gallant chwarae â'u ffrindiau a'u perthnasau, neu a yw hyn efallai yn cael ei beri gan gryfder eu diwylliant cyffredin? Mae Prout yn rhybuddio, er bod plant tlawd yn sicr angen gwelliannau brys yn eu hamodau cymdeithasol ac economaidd, mae'n bwysig inni beidio â chymryd yn ganiataol mai dim ond un plentyndod sydd i gael a bod plentyndod yn brofiad y cyfoethog. Mae'r un cyn bwysiced i beidio cymryd bod unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng ansawdd y cyfleoedd ar gyfer chwarae y gallai plentyn ei brofi a'i gyd-destun economaidd.

### Plant cymwys

Mae un maes allweddol yn y drafodaeth am blentyndod yn ymwneud â barnau oedolion am gymhwysedd plant. Mae gennym ni, yn y DU, safbwynt sydd braidd yn anghyson ar y mater hwn. Ar un llaw, rydym yn datgan bod plant yn droseddol gyfrifol yn 10 mlwydd oed (12 oed yn Yr Alban), ond y safbwynt traddodiadol yw bod plant yn oedolion anghyflawn sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau o werth a'u bod, o bosibl, yn fygythiad i'w hunain ac eraill oherwydd eu diffyg rhesymu a phrofiad[119].




Mae Woodhead[120] yn haeru nad yw 'plant yn fodau dynol anghyflawn y dylid eu ffurfio ym mowld cymdeithas. Mae ganddynt eu hanghenion a'u dyheadau eu hunain, a hawliau y mae rhaid eu parchu.'

Mae Stainton Rogers[121] yn nodi, er bod plentyndod yn gyfnod o dwf a datblygiad sylweddol nid yw'n golygu bod plant, rywsut, yn 'llai' nag oedolion ac nad ydynt yn haeddu'r un hawliau a'r un parch. Perygl y drafodaeth anghenion yw ei bod yn caniatáu i oedolion gamddefnyddio'r grym y mae'n ei roi iddynt. Gellir defnyddio idiomau megis 'er budd gorau'r plentyn' fel esgus i gymeradwyo gweithredoedd fydd, yn hytrach, yn cyflawni buddiannau a dibenion oedolion. Gallai enghreifftiau o faes gwaith chwarae gynnwys oriau agor gaiff eu trefnu i weddu i anghenion oedolion ac nid anghenion y plant, neu gyfyngu'n artiffisial ar oedran y plant all fynychu darpariaeth chwarae penodol 'er mwyn eu cadw'n ddiogel'. Fel gweithwyr chwarae, bydd rhaid inni wastad ofyn i'n hunain 'Anghenion pwy ydw i'n eu cyflawni trwy wneud hyn?'

### Hawliau plant

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[122] yw'r offeryn unigol mwyaf cynhwysfawr o gyfraith hawliau dynol a hwn yw'r cytundeb a dderbyniwyd fwyaf yn hanes y byd. Ar 26 Ionawr 1990, agorwyd y confensiwn ar gyfer llofnodion gyda 61 o wledydd yn ei arwyddo'r diwrnod hwnnw. Mae rhaid i lywodraethau sy'n cytuno iddo (pawb, heblaw UDA) sicrhau ystod gyflawn o hawliau dynol sy'n seiliedig ar bedair egwyddor allweddol:

1. **Peidio â gwahaniaethu**: Mae'r confensiwn yn gymwys i bob plentyn waeth beth fo'i hil, crefydd, gallu, rhyw, cefndir neu unrhyw gategori arall.
2. **Budd gorau'r plentyn**: Mae rhaid i oedolion wneud yr hyn sydd orau i blant ac ystyried eu buddiannau wrth lunio penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt.
3. **Hawl i fyw a datblygu**: Mae rhaid i lywodraethau amddiffyn bywydau plant a sicrhau eu datblygiad iach.
4. **Parchu barn y plentyn**: Pan fo oedolion yn llunio penderfyniadau am blant, mae rhaid iddynt wrando ar eu safbwyntiau yn unol â lefel aeddfedrwydd y plentyn.

Arwyddodd y Deyrnas Unedig y Confensiwn, neu ei 'gadarnhau', ar 16 Rhagfyr 1991. Mae'r broses cadarnhau'n golygu bod llywodraeth ('Gwladwriaeth sy'n Barti') yn datgan eu bwriad i gynnal erthyglau'r confensiwn a gwau'r rhain i mewn i ddeddfwriaeth eu gwlad. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol yn 2004, gan ymrwymo ei hun i droi egwyddorion CCUHP yn realiti ar gyfer pob plentyn ac arddegwr.

Yn ogystal, mae rhaid i bob Gwladwriaeth sy'n Barti gyflwyno adroddiad cenedlaethol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn bob pum mlynedd, i ddangos sut y maent yn sicrhau cydymffurfio a gwella ar eu hadroddiad blaenorol. Mae'r Pwyllgor yn archwilio'r adroddiadau hyn, gan gasglu tystiolaeth ychwanegol oddi wrth elusennau a sefydliadau anllywodraethol a bydd yntau, yn ei dro, yn cyhoeddi ei 'sylwadau clo' ei hun, sy'n gwneud argymhellion i bob gwlad ar gyfer gwelliannau pellach.

Mae'r confensiwn yn gytundeb eang sy'n cwmpasu hawliau plant ac arddegwyr – hynny yw pawb o dan 18 oed – a'r rhwymedigaethau canlyniadol ar lywodraethau i gydnabod a chyflawni'r hawliau hyn. Mae'r confensiwn yn cynnwys 54 erthygl – mae'r 42 cyntaf yn amlinellu sut y dylid trin plant ac mae Erthyglau 43 i 54 yn amlinellu sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithredu i sicrhau bod hawliau pob plentyn yn cael eu hyrwyddo a'u cyflawni, gan dalu sylw llawn i'w gwreiddiau, eu statws a'u gallu. Mae'r confensiwn yn egluro hefyd bod yr hawliau hyn yn gyd-ddibynnol ac annatod – ni ddylai hawliau unrhyw un gael eu cyflawni ar draul person arall.

Mae pob un o'r erthyglau'n bwysig, ond i weithwyr chwarae efallai bod tair erthygl arwyddocaol. Y rhain yw:

**Erthygl 31**

1. Mae Gwladwriaethau sy'n Bartïon yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau adloniadol sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gyfranogi'n rhydd mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.
2. Bydd Gwladwriaethau sy'n Bartïon yn parchu a hyrwyddo hawl y plentyn i gyfranogi'n llawn mewn bywyd diwylliannol ac artistig a byddant yn annog darparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgarwch diwylliannol, artistig, adloniadol a hamdden.

I bob diben, mae Erthygl 31 yn dweud bod gan blant hawl i chwarae ac y dylai llywodraethau ddarparu cyfleoedd i blant chwarae.

**Erthygl 15**

1. Mae Gwladwriaethau sy'n Bartïon yn cydnabod hawl y plentyn i ryddid i gymdeithasiad ac rhyddid i ymgynnull yn heddychlon.
2. Ni ellir rhoi cyfyngiadau ar arfer yr hawliau hyn, ar wahân i'r rheini a orfodir er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch gwladol neu ddiogelwch cyhoeddus, trefn gyhoeddus, gwarchod iechyd neu foesau'r cyhoedd neu warchod hawliau a rhyddid pobl eraill.

I bob diben, mae Erthygl 15 yn dweud bod gan blant hawl i ymgasglu, cymdeithasu, bod gyda'u ffrindiau yn gyhoeddus ac na ddylai hyn gael ei gwtogi na'i gyfyngu am unrhyw reswm, heblaw torri cyfreithiau neu leihau hawliau pobl eraill.

**Erthygl 12**

1. Bydd Gwladwriaethau sy'n Bartïon yn sicrhau i'r plentyn sy'n abl i ffurfio ei farn ei hun yr hawl i fynegi'r farn honno'n rhydd ar bob mater sy'n effeithio ar y plentyn, ac y bydd barn y plentyn yn derbyn pwys dyledus yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.

I bob diben, mae Erthygl 12 yn dweud pan fydd oedolion yn llunio penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, y dylai'r plant allu mynegi eu barn a derbyn gwrandawiad.

Caiff yr erthyglau eu grwpio'n aml fel a ganlyn:

- **Amddiffyniad** – Mae gan blant hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, ecsploetiaeth a dylanwadau niweidiol
- **Cyfranogiad** – Mae gan blant hawl i gyfranogi'n llawn mewn bywyd teuluol, cymdeithasol a diwylliannol
- **Darpariaeth** – Mae gan blant hawl i oroesi ac i'w anghenion datblygiadol gael eu cyflawni.

Mae'r ddadl am hawliau plant wastad wedi cael ei dylanwadu, ar un llaw gan bryderon ynghylch lles plant, a phryderon ynghylch hawliau rhieni a phreifatrwydd teuluol ar y llaw arall[123].

Yn y ddadl hon mae rhai hawliau wedi profi i fod yn fwy dadleuol nag eraill. Mae materion sy'n ymwneud â diogelwch plant ac, yn benodol, amddiffyniad rhag camdriniaeth gorfforol a rhywiol, yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda polisïau. Fodd bynnag, mae hawliau sy'n sail i annibyniaeth plant yn llawer mwy o fygythiad i lawer o oedolion[124], ac, yn ein barn ni, yn llawer mwy tebygol o gael eu hanwybyddu neu gael eu derbyn yn symbolaidd. Mae hyn er gwaetha'r haeriad bod hawliau'r plentyn gaiff eu cynnwys yn y confensiwn yn annatod ac yn gyd-ddibynnol.

Mae'r ansicrwydd yma rhwng hawliau sy'n amddiffyn a hawliau sy'n cefnogi annibyniaeth yn cael ei arddangos orau oll mewn chwarae plant. Bydd yr angen am fannau diogel i chwarae fel arfer yn derbyn cefnogaeth gyffredinol (er efallai'n llai aml o ran adnoddau), ac mae chwarae, pan gaiff ei gyfethol ar gyfer dibenion addysgol, yn gwbl annadleuol. Fodd bynnag, pan fydd plant yn chwarae mewn ffyrdd y maent yn eu pennu'n bersonol – ffyrdd gaiff eu hystyried yn aml fel rhai'n llawn risg, anniben ac sy'n tarfu ar awdurdod – mae llawer llai o oedolion yn eiriol dros hawl plant i chwarae.

Mae Lester a Russell[125] wedi arddangos sut y mae pob un o'r categorïau hyn yn cydberthyn â chwarae plant a'r hyn y mae'n ei olygu er mwyn cael oedolion i gydnabod chwarae fel hawl. Cafodd yr hawl i chwarae sydd wedi ei chynnwys yn y confensiwn, ei egluro ymhellach i lywodraethau ar draws y byd yn 2013, trwy fabwysiadu Sylw Cyffredinol ar ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31[126].

Mae Sylw Cyffredinol yn ddatganiad swyddogol sy'n egluro ac ehangu ar ystyr agwedd benodol o'r confensiwn. Mae'n anelu i gynyddu pwysigrwydd yr erthygl a chynyddu atebolrwydd ymysg y gwledydd sydd wedi arwyddo'r confensiwn.



Mae'r Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 yn anelu i gynyddu ymwybyddiaeth am chwarae'n fyd-eang a darparu arweiniad i lywodraethau ar yr hyn y dylent ei wneud i'w weithredu. Ei dri amcan yw i:

- Gynyddu dealltwriaeth am bwysigrwydd yr erthygl ar gyfer lles a datblygiad plant
- Sicrhau parchu'r hawliau dan Erthygl 31 yn ogystal â hawliau eraill yn y confensiwn
- Pwysleisio'r ymrwymiadau a'r oblygiadau ar gyfer llywodraethau, rolau a chyfrifoldebau'r sector preifat, a chanllawiau ar gyfer unigolion sy'n gweithio gyda phlant.

## Pryderon am blentyndod

Un dylanwad grymus ar ein cysyniad o blentyndod yw dylanwad y cyfryngau, ac mae delweddau a straeon am blant a phlentyndod yn fythol-bresennol ac yn aml yn llawn awgrymiadau moesol amlwg. Ceir llu o bortreadau o blant fel angylion neu gythreuliaid. Bydd sylwebyddion yn y cyfryngau, gwleidyddion a llawer o bobl eraill, wedi eu hysgogi gan achosion amlwg o gamdriniaeth a thrais yn cynnwys plant, yn aml yn megino'r ymdeimlad o argyfwng[127]. Mae'r farn hon yn cysylltu'n rymus â'r syniad o golli diniweidrwydd, ac awydd am ddychwelyd i oes well a mwy 'naturiol'.

Awgryma Kehily[128] bod y farn hon bod plentyndod yn llwgr ac mewn cyfnod o argyfwng, yn adlewyrchiad o bryderon ac ansicrwydd oedolion mewn cyfnod newydd ac ansicr. Yn sicr, gall fod yn anodd inni fod yn wrthrychol pan fyddwn yn meddwl am brofiadau plant pan fo cymaint o farnau amdanynt yn cael eu cyflwyno mewn modd eithafol ddramatig. Er gwaethaf angerdd dadleuon diweddar ynghylch natur plentyndod modern, mae llywodraethau ac academyddion wedi bod yn pryderu am blentyndod ers o leiaf cant a hanner o flynyddoedd – fyth ers i'r wladwriaeth ddechrau derbyn rhywfaint o gyfrifoldeb am les plant[129].

Dynoda Wyness[130] dair thema benodol yn yr argyfyngau sy'n ymwneud â phlentyndod:

1. Cysylltu ieuenctid â helynt
2. Y plentyn ar y stryd fel symptom gweladwy a phryderus o chwalfa gymdeithasol mewn cymdeithasau sydd wedi datblygu
3. Y plentyn 'wedi ei ddal yn y we', y mae ei chwarae ac, yn y pen draw ei ddiniweidrwydd, wedi ei beryglu gan dechnoleg.

Mae oedolion, a rhieni ac athrawon yn benodol, yn pryderu am hapusrwydd plant. Yn y dadleuon hyn, ceir diffyg cysylltiad yn aml rhwng lleisiau plant ac oedolion ac mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am eu bywydau. Dylai'r sylwadau hyn hysbysu proses lunio penderfyniadau'r llywodraeth yn lleol ac yn ganolog[131].

Fodd bynnag, pan ofynnir iddynt, mae plant yn llawer mwy optimistaidd nac oedolion. Awgryma Alexander[132] efallai y byddai'r canlynol yn gwestiwn gwell, pam fod cymaint o oedolion yn bryderus ynghylch plant Prydain?

'Felly, mae'n bosibl iawn mai'r hyn yr ydym yn ei dystio'n awr yw, yn rhannol, bryder cwbl gyfiawn ynghylch cyflwr plentyndod heddiw – yn enwedig yng nghyd-destun y plant a'r teuluoedd hynny sy'n fregus ac sy'n dioddef o dlodi, anfantais, anghydraddoldeb a chael eu gwthio i'r cyrion – ac, yn rhannol, daflu ofnau a phryderon oedolion ar blant, yn enwedig ynghylch y math o gymdeithas a byd y mae oedolion wedi eu creu.'[133]

## Casgliadau

Yn ei gasgliad ar blentyndod plant heddiw, awgryma Cunningham[134] y dylem fyfyrio ar yr un gwahaniaeth trawiadol a geir rhwng plentyndod heddiw a phlentyndod dros y mileniwm diwethaf. Yn y gorffennol, roeddem yn cymryd yn ganiataol ac yn dibynnu'n rheolaidd ar blant i feddu ar gymwyseddau sydd bellach byth bron yn cael eu hystyried. Roedd plant yn gweithio mewn ffatrïoedd ac yn glanhau simneiau, er, fel y dywed Cunningham, fydden ni ddim am i blant wneud y pethau hyn heddiw. Er hynny, roedd plant yn gallu gwneud y pethau hyn.

'Rydym yn canolbwyntio cymaint ar sicrhau fod ein plant yn cael plentyndod hir a hapus, fel ein bod yn bychanu eu doniau a'u gwytnwch. Mae meddwl am blant fel ysglyfaeth posibl sydd angen eu hamddiffyn yn safbwynt modern iawn, ac mae'n debyg nad yw hyn yn gwneud cymwynas ag unrhyw un.'[135]

Mae Jones[136] yn darparu barn fwy optimistaidd yn ei grynodeb o'r gwahaniaethau rhwng y safbwyntiau diweddar ar blentyndod a'r ddealltwriaeth draddodiadol flaenorol fel:

- 'galluog yn hytrach nac annalluog
- gweithredol yn hytrach na goddefol
- gweledol yn hytrach nac anweladwy
- pwerus yn hytrach na'n fregus ac anghenus
- cael ei werthfawrogi a derbyn sylw'n y presennol yn hytrach na chael ei ystyried a derbyn sylw dim ond fel buddsoddiad ar gyfer y dyfodol
- unigolyn â'i ddoniau ei hun yn hytrach nag egin-oedolyn sydd ddim yn meddu ar gymwyseddau llawn oedolyn'.

Yn y trosolwg hwn o bersbectifau ar blentyndod, rydym wedi ceisio gwrthbwyso rhywfaint o'r sylw a roddir i'r damcaniaethau seicoleg datblygiadol sy'n canolbwyntio ar natur fiolegol plant, trwy edrych ar agweddau sy'n pwysleisio effaith diwylliant ar ddatblygiad. Fodd bynnag, gellid dadlau bod hyn hefyd ond yn un ffordd o ystyried plentyndod.

Ysgrifenna Prout[137] bod plentyndod yn rhannol naturiol ac yn rhannol gymdeithasol. Mae plant yn unigolion ac yn rhan o gymdeithas – maent yn 'fodau ac yn ddyfodau'[138]. Yr hyn sydd angen yw ffordd o feddwl am y ddau sydd ddim yn eu gosod ben ben â'i gilydd mewn modd artiffisial; agwedd sy'n goddef amwysedd, yn ddigon tebyg i'n hagwedd tuag at chwarae ei hun.

Yn olaf, efallai bod Michael Morpurgo, yr awdur plant, yn cynnig man synhwyrol inni gloi'r adran hon:

'Rwyf wedi sylweddoli, efallai bod plentyndod wedi newid, neu wedi ei ailddyfeisio trwy'r oesau, ond 'dyw plant ddim'[139].



# Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith

## Egwyddorion Gwaith Chwarae 3 i 8

Wedi archwilio rhai o'r damcaniaethau a'r cysyniadau sy'n cynnal ac yn dylanwadu ar waith chwarae, ac yn enwedig Egwyddorion Gwaith Chwarae 1 a 2, gallwn archwilio sut y mae Egwyddorion Gwaith Chwarae 3 i 8 yn dylanwadu ar ymarfer. Yn yr adran hon byddwn yn archwilio'r rôl gwaith chwarae a sut y mae'n effeithio ar, ac yn cael ei effeithio gan, yr amgylchedd a'r plant. Mae'n ystyried sut y caiff y broses chwarae flaenoriaeth a'r modd y bydd gweithwyr chwarae'n taro cydbwysedd rhwng buddiannau datblygiadol chwarae â lles plant.

### Egwyddor Gwaith Chwarae 3

Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw **cefnogi** a **hwyluso'r** broses chwarae a dylai hyn hysbysu datblygiad polisi, strategaeth, hyfforddiant ac addysg chwarae.

Mae Egwyddor Gwaith Chwarae 3 yn ddatganiad clir am yr hyn y mae gweithwyr chwarae'n ei wneud ac mae'n hysbysu'r Egwyddorion nesaf i gyd. Mae'r plentyn yn chwarae wrth galon ein harfer a hwyluso'r broses chwarae yw'r prif reswm dros fodolaeth y proffesiwn gwaith chwarae.

Sylwer ar bwysigrwydd y geiriau 'cefnogi a hwyluso'. Mae'r rhain yn awgrymu bod gweithwyr chwarae'n cynorthwyo, helpu a rhoi cymorth i'r plentyn sy'n chwarae – dydyn nhw ddim yn arwain, rheoli nac addysgu. Mae'n arbennig o bwysig cofio hyn yng nghyd-destun cynorthwyo plentyn anabl i gael mynediad i chwarae. Fel y mae'r ddwy Egwyddor flaenorol yn egluro, mae chwarae'n broses ddylai fod dan reolaeth y plentyn ac os ydym i'w hwyluso'n effeithlon, yna mae rhaid inni fabwysiadu agwedd sensitif ac ystyriol sy'n gochel rhag cymryd drosodd neu lygru. Rydym yn gweithio'n unol ag agenda'r plentyn: 'mewn geiriau eraill, bydd gweithwyr chwarae'n ystyried profiadau, dyheadau ac anghenion y plentyn fel man cychwyn ar gyfer rhyngweithiadau gwaith chwarae'[140].

Er gwaetha'r pwyslais hwn mai ffocws gwaith chwarae yw'r plentyn sy'n chwarae, mae'n rhy gyffredin o'r hanner inni weld arfer gwaith chwarae sy'n cael ei lethu gan bryderon eraill, megis cydymffurfio â rheoliadau a deddfwriaethau, pryderon iechyd a diogelwch, addysg, anghenion rhieni sy'n gweithio, neu atal troseddu. Ble mae gan weithwyr chwarae gyfrifoldeb i oruchwylio neu ddatblygu polisïau, gweithdrefnau, strategaethau neu hyfforddiant, yna byddant yn sicrhau, waeth beth fo'u neges benodol, fod popeth y byddant yn ei wneud, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn y pen draw o gymorth wrth gefnogi a hwyluso chwarae plant.

### Egwyddor Gwaith Chwarae 4

I weithwyr chwarae, y broses chwarae fydd flaenaf a bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae pan yn ymwneud ag agendâu gaiff eu harwain gan oedolion.

Mae plant yn datgan yn gwbl glir eu bod eisiau ac angen chwarae. Er gwaetha'r ffaith bod yr angen hwn yn cael ei gydnabod fel hawl cyffredinol, mewn gwirionedd caiff ei anwybyddu, ei anghofio neu ei foddi yn aml gan bryderon oedolion. Yng Nghynhadledd Fyd-eang yr International Play Association (IPA) yn 2011, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y cynadleddwyr am dref ble y dinistriwyd man chwarae hynod o werthfawr, a ddefnyddiwyd ers cenedlaethau, er mwyn gwneud lle i dai newydd. Wnaeth neb ymgynghori â'r plant lleol. Mae cyfrifoldeb ar weithwyr chwarae i godi eu llais ar ran plant: 'mae angen inni fod yn ddigon mentrus a digon cryf i floeddio'n uchel dros ben pan fo pobl yn gwneud penderfyniadau fydd yn gwneud gwir niwed i fywydau plant heddiw'[141].

Dylai agenda'r plentyn fod yn agenda i ninnau ac mae'r agwedd hon yn unigryw i weithwyr chwarae. Weithiau, yn enwedig os oes gennym gyfrifoldebau rheoli ychwanegol, gallwn deimlo ein bod yn cael ein llethu gan bwysau galwadau amrywiol sy'n ymddangos yn bell iawn o gefnogi'r broses chwarae. Ar yr adegau

hyn mae'n hanfodol inni gofio mai'r broses chwarae fydd flaenaf. Am drafodaeth bellach am y pwysau all arwain at weld gweithwyr chwarae'n cyfaddawdu eu hegwyddorion ac os gellir rheoli'r rhain yn effeithlon, gweler myfyrdodau Mike Wragg ar 'waith chwarae Gerila' yn *Foundations of Playwork*[142].

Bydd gweithwyr chwarae'n codi eu llais dros blant yn chwarae ar bob lefel o gymdeithas, o ymgyrchu a dylanwadu ar bolisïau rhanbarthol a chenedlaethol i sgwrsio am chwarae â rhiant lleol dros baned o de. O ganlyniad, golyga'r cyfrifoldeb hwn i eiriol dros chwarae y dylai pob un ohonom allu egluro pam a sut y byddwn yn hwyluso chwarae a'r amodau lleol allai ei hybu neu ei atal.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 5**

Rôl y gweithiwr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu gofod ble y gallant chwarae.

Bydd gweithwyr chwarae'n gwneud hyn trwy chwalu rhwystrau i chwarae, darparu amgylchedd amrywiol a hyblyg sy'n gyforiog o bosibiliadau, darparu symbyliadau affeithiol a mynediad i rannau rhydd a hwyluso cyfleoedd ble y gall plant ymgysylltu â risg a her. Mae angen i fannau chwarae fod yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ddigon hyblyg i ateb anghenion chwarae newidiol plant. Mae mannau chwarae da wir yn teimlo ac edrych fel eu bod yn perthyn i'r plant sy'n eu defnyddio, ac 'mae plant yn ystyried ac yn trin yr amgylchedd fel ei fod yn berchen iddyn nhw'[143]. Mae'r awyrgylch a'r ymdeimlad o ryddid i chwarae y mae'r amgylchedd yn ei gynnig yn hanfodol i'w effeithlonrwydd.

O'r herwydd, gall yr Egwyddor hon greu heriau penodol i weithwyr chwarae sy'n gweithio mewn gofodau gaiff eu rhannu. Bydd y gofodau hyn, yn anochel, yn galw am rywfaint o gyfaddawdu o ran perchenogaeth y gofod ac yn aml byddant yn galw am ddatrysiadau creadigol er mwyn sicrhau bod y plant yn teimlo gwir berchenogaeth.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 6**

Caiff ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc ei seilio ar wybodaeth gyfredol, gref o'r broses chwarae, ac arfer myfyriol.

Tan yn gymharol ddiweddar, prin oedd y ddealltwriaeth gyffredinol am yr hyn a ystyrid yn waith chwarae effeithlon. Yn aml iawn roedd enghreifftiau o arfer da yn brin ac nid oedd dealltwriaethau newydd yn cael eu rhannu y tu hwnt i ardaloedd lleol. Mae dogfennau fel *Yr Hawl Cyntaf … fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*[144] a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae[145], ynghyd ag amrywiol ddatblygiadau damcaniaethol, wedi arwain at ddealltwriaeth ehangach ynghyd â sefydlu ethos proffesiynol. Mae wedi caniatáu inni ehangu ein dealltwriaeth, eiriol yn fwy effeithlon dros yr hawl i chwarae, a sicrhau safonau mewn darpariaeth, hyfforddiant ac addysg, a pholisi.

Mae'r agwedd gwaith chwarae, fel yr ydym wedi gweld eisoes, yn un ble y gall plant reoli eu chwarae eu hunain. Mae hefyd yn un ble y bydd gofyn i bobl sy'n ymarfer gwaith chwarae ymateb i giwiau ac arwyddion all, ar brydiau, fod yn gymhleth ac anniffiniol, a chadw meddwl agored heb ddod i gasgliad byrbwyll neu farnu sefyllfa ymlaen llaw. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y bydd rhaid taro cydbwysedd â gofynion trefniadol a rheolyddol. Mae hon yn rôl gymhleth i'w meistroli, ac mae'n mynnu ein bod yn onest ynghylch ein cymhellion a'n credau personol. Mae arfer myfyriol yn caniatáu inni archwilio ein meddyliau a'n teimladau ac i gwestiynu ein barn. Gall defnyddio arfer myfyriol cyn, yn ystod ac ar ôl chwarae helpu pobl sy'n ymarfer gwaith chwarae i 'arfer ag egwyddor'[146]. Mae arfer myfyriol yn grefft allweddol ar gyfer gweithwyr chwarae ac fe'i trafodir ymhellach yng *Nghyfrol 3: Datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae*.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 7**

Mae gweithwyr chwarae'n cydnabod eu heffaith eu hunain ar y gofod chwarae yn ogystal ag effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithiwr chwarae.

Mewn gofod ble fo plant wir â'r rhyddid i chwarae yn eu ffordd eu hunain, mae'n bosibl y caiff pobl sy'n ymarfer gwaith chwarae eu hunain yn wynebu ymddygiad chwarae sydd yn ei dro yn peri penbleth, yn ysbrydoledig, yn heriol, yn ddeniadol, neu sy'n groes i'w credau a'u gwerthoedd personol a, boed yn fwriadol neu'n ddiarwybod, gael eu hunain yn cael eu tynnu i mewn i chwarae'r plant. Heb hunanadnabyddiaeth a'r gallu i fyfyrio ar arfer, mae'r perygl o gymryd trosodd a llygru'r chwarae wastad yn bodoli.

Ein tueddiad fel oedolion yw i warchod, addysgu neu gymdeithasu, ac mae'r ddyfais hon o berthnasau oedolion-plant wedi ei wreiddio'n ddwfn mewn polisïau cymdeithasol[147]. Mae angen i bobl sy'n ymarfer gwaith chwarae fod yn weithredol wrth archwilio eu cymhellion yn barhaus er mwyn osgoi cerdded yn eu cwsg tuag at arfer sy'n trefnu a chyfarwyddo, yn hytrach nag un sy'n hwyluso a chefnogi. At hynny, fel oedolion, mae'n bosibl bod gennym ysfa chwarae gwsg sydd heb ei diwallu, all gael ei deffro pan fydd y plant yn ein gwahodd i chwarae. Gall yr elfennau hyn, y bydd Sturrock yn cyfeirio atynt fel 'deunyddiau sydd heb eu chwarae allan', lygru chwarae plant os na fyddwn yn eu hadnabod a delio â hwy[148].

### Egwyddor Gwaith Chwarae 8

Bydd gweithwyr chwarae'n dewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg a'r budd datblygiadol a lles plant.

Mae ymyrraeth gwaith chwarae'n weithred ymwybodol. Er mwyn osgoi mabwysiadu ymateb awtomatig, difeddwl yn gyntaf bydd angen i weithwyr chwarae fod yn effro i ystod o opsiynau ac yna dethol yr agwedd fydd yn fwyaf tebygol o ymestyn y chwarae. Mae'n bosibl iawn y bydd yr agwedd hon yn un annirnad, anymwthgar neu mae'n bosibl y bydd yn cynnwys peidio ymyrryd o gwbl. Ceir adegau pryd y bydd angen ymyrryd ar unwaith er mwyn atal niwed uniongyrchol neu ddifrifol. Bydd rhaid i niwed fod yn bosibilrwydd gwirioneddol er mwyn gwneud ymyrraeth yn hanfodol, ac nid dim ond oherwydd ofn personol o uchder, er enghraifft. Hyd yn oed wrth ymyrryd mewn sefyllfa o'r fath, gall fod yn bosibl parhau i fod yn chwareus. 'Gallwn dynnu sylw neu ailgyfeirio'r plentyn, neu ail-fframio'r chwarae, yn hytrach na dweud wrthi'n blaen i stopio gwneud yr hyn y mae'n ei wneud'[149].

Ers cyhoeddi'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, mae agweddau sy'n taro cydbwysedd rhwng risgiau â buddiannau chwarae i blant wedi eu ffurfioli mewn nifer o strategaethau a chanllawiau, gan gynnwys cyngor gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[150].

Mae'r agweddau hyn yn galw am bwyso a mesur buddiannau tebygol cam gweithredu penodol a'u cymharu yn erbyn risgiau posibl er mwyn penderfynu os yw risg sy'n rhan annatod o gyfle chwarae'n werth ei chymryd. Trafodir asesu risg-budd ac asesu risg-budd dynamig yn ddyfnach yng *Nghyfrol 2: Ymarfer gwaith chwarae*, ac fe'i trafodir hefyd yng N*ghyfrol 3: Datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae* a *Chyfrol 4: Rheoli gweithwyr chwarae a gweithio gydag oedolion eraill*.

### Casgliadau

O'u hystyried fel uned gyflawn, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n darparu athroniaeth sylfaenol hanfodol – canllaw cryno i'r hyn y byddwn yn ei wneud a'r hyn yr ydym yn ei gredu am werth chwarae ym mywydau plant ac arddegwyr. Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n cynnig fframwaith y gellir ei ddefnyddio i ddadansoddi ac asesu arfer, ac yn darparu ethos cyffredin y gellir ei ddefnyddio i gymharu a gwrthgyferbynnu ein profiad a'n dealltwriaeth â phobl eraill.

Ers i'r Egwyddorion gael eu cymeradwyo yn 2005, mae gwaith chwarae, yn anochel, wedi symud ymlaen gyda dealltwriaeth ddamcaniaethol newydd a newidiadau mewn arfer. Mae rhai awduron, megis Brown[151] wedi awgrymu ychwanegiadau i'r Egwyddorion, er mwyn egluro'n well y modd y mae gweithwyr chwarae'n ymgysylltu â phlant. Fodd bynnag, hyd yma, maent yn parhau i fod heb eu newid. Waeth beth fydd eu ffurf yn y dyfodol, mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n crynhoi ein hethos proffesiynol ac yn gweithredu fel sgaffald ar gyfer ein hagwedd tuag at chwarae a gwaith chwarae.



# Cyfeiriadau

[1] Grŵp Craffu yr Egwyddorion Gwaith Chwarae (2005) Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, delir mewn ymddiriedolaeth fel broceriaid gonest ar ran y proffesiwn gan Grŵp Craffu yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

[2] Gosso, Y. (2010) Play in Different Cultures. Yn: Smith, P. K. (2010) *Children and Play*. Chichester: Wiley-Blackwell, td.95.

[3] UNICEF (1989) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*. Svenska: UNICEF Kommitten.

[4] Gweler: Burghardt, G. (2006) *The Genesis of Animal Play: Testing the Limits*. Cambridge, MA: MIT Press; Bekoff, M. a Byers, J. A. (1998) *Animal play: Evolutionary, comparative, and ecological perspectives*. Caergrawnt, Y DU: Cambridge University Press.

[5] Hughes, B. (2001) *Yr Hawl Cyntaf … Fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae.* Caerdydd: Chwarae Cymru, ac Ely: Play Education.

[6] Sutton-Smith, B. (1997) *The Ambiguity of Play*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

[7] Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*. Llundain: Play England.

[8] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*.

[9] *The Genesis of Animal Play: Testing the Limits*.

[10] Brown, F. (2006) *Play Theories and the Value of Play*, Highlight No 233. Llundain: National Children's Bureau.

[11] Er enghraifft: Prout, F. (2005) *The Future of Childhood*. Llundain: Routledge Falmer; *The Genesis of Animal Play: Testing the Limits; Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*.

[12] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*, td.38.

[13] Bateson, P. (2005) The Role of Play in the Evolution of Great Apes and Humans. Yn: Pelligrini, A. D. a Smith, P. K., gol., *The Nature of Play: Great apes and humans* (td.19). Efrog Newydd: Guilford Press.

[14] Spinka, M., Newberry, R. C. a Bekoff, M., Mammalian Play: Training for the Unexpected, *The Quarterly Review of Biology* Cyf. 76, Rhif. 2 (Mehefin, 2001). The University of Chicago Press.

[15] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*.

[16] Play England (2011) *A world without play: An expert view*. Llundain: Play England.

[17] *A world without play: An expert view*.

[18] Gleave, J. (2010) *Community Play: A literature review*. Llundain: Play England.

[19] Rennie, S. (2003) Making play work: the fundamental role of play in the development of social relationship skills. Yn: Brown, F. gol. *Playwork: Theory and Practice*. Buckingham: Open University Press.

[20] Hughes, B. (1996) *Play Environments: A Question of Quality*. Llundain: PLAYLINK.

[21] *Play Environments: A Question of Quality*, td.17.

[22] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*.

[23] Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

[24] Smith, P. K., Cowie, H. a Blades, M. (2003) *Understanding Children's Development*. 4ydd arg. Rhydychen: Blackwell Publishing.

[25] Hogan, D. (2005) Researching 'the Child' in Developmental Psychology. Yn: Greene, S. a Hogan. D. gol. (2005) *Researching children's experience*. Llundain: Sage.

[26] Bretherton, I. (1992) The origins of attachment theory: John Bowlby and Mary Ainsworth. *Developmental Psychology* 28, 759-775.

[27] Er enghraifft: Schore, A. N. (2001) Effects of a secure attachment relationship on right brain development, affect regulation, and infant mental health. *Infant Mental Health Journal*, 22 (1-2), 7-66.

[28] Feldman, R. (2007) Parent-infant synchrony and the construction of shared timing: Physiological precursors, developmental outcomes, and risk conditions, *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 48, 329-354.

[29] Panksepp, J. (2001) The long term psychobiological consequences of infant emotions: prescriptions for the twenty-first century, *Infant Mental Health Journal* 22 (1-2) 132-173.

[30] Bowlby, J. (1988) *A secure base*. Efrog Newydd: Basic Books.

[31] Creasey, G. a Jarvis, P. (2003) Play in Children: An attachment Perspective. Yn: Saracho, O. N. a Spodek, B. gol. (2003) *Contemporary Perspectives on Play in Early Childhood Education*. Greenwich, CT.: Information Age Publishing. Pen.8.

[32] Howard, J. a Mcinnes, K. (2013) *The Essence of Play*. Abingdon: Routledge.

[33] Coplan, R. J., Rubin, K. H. a Findlay, C. (2006) Social and Nonsocial Play. Yn: Fromberg, D. P. a Bergen, D. gol. (2006) *Play From Birth to Twelve*. Llundain: Routledge. Pen.9.

[34] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*.

[35] Pendry. P. (1998) *Ethological Attachment Theory: A Great Idea in Personality?*

[36] Freud, S. (1922) Beyond the Pleasure Principle. Yn: Freud, S. (1974) *The Standard Edition of the Complete Psychological Works of Sigmund Freud*, 24 cyfrol. Llundain: Hogarth Press, Institute of Psycho-Analysis.

[37] Lillemyr, O. F. (2009) *Taking Play Seriously*. Charlotte, NC.: Information Age Publishing.

[38] *Taking Play Seriously.*

[39] Erikson, E. (1950) *Childhood and Society*. Efrog Newydd: W. W. Norton.

[40] *Childhood and Society*, td.199.

[41] Shaffer, D. R. (2009) *Social and Personality Development*. 6ed arg. Belmont, CA.: Wadsworth/ Cengage Learning.

[42] Gilligan, C. (1982) *In a Different Voice: Psychological Theory and Women's Psychological Development*. Boston: Harvard University Press.

[43] Weeber, J. E. (2000) *Identity Development and Disability: A theoretical Journey to Wholeness*.

[44] Crandell, T. L., Crandell, C. H. a Zanden, J. W. V. (2008) *Human Development*. 8fed arg. Efrog Newydd: McGraw-Hill.

[45] Piaget, J. (1952) *The origins of intelligence in children* (Tros. M. Cook). Efrog Newydd: International Universities Press, td.6.

[46] Piaget, J. (1951) *Play, Dreams and Imitation in Childhood*. Llundain: Routledge a Kegan Paul.

[47] *Taking Play Seriously*, td.79.

[48] *Play, Dreams and Imitation in Childhood*, td.93.

[49] *Play, Dreams and Imitation in Childhood*.

[50] *Play, Dreams and Imitation in Childhood*, td.146.

[51] Watts, J., Cockcroft, K. a Duncan, N. (2009) *Developmental Psychology*. 2ail arg. Cape Town, De Affrica: UCT Press.

[52] Er enghraifft: Flavell, J. H., Flavell, P. H. a Millar, S. A. (1993) *Cognitive Development*. 3ydd arg. New Jersey: Prentice Hall.

[53] Er enghraifft: Bjorklund, D. (2012) *Children's Thinking*. 5ed arg. Belmont, CA: Wadsworth/Cengage Learning.

[54] Lourenço, O. a Machado, A. (1996) In Defense of Piaget's Theory: A Reply to 10 Common Criticisms, *Psychological Review*, 103(1), 143-164.

[55] Donaldson, M. (1978) *Children's Minds*. Llundain: Fontana/Collins.

[56] Researching 'the Child' in Developmental Psychology.

[57] Sutton-Smith, B. (1966) Piaget on Play: A Critique. Yn: Herron, R. E. a Sutton-Smith, B. gol. (1971) *Child's Play*. Efrog Newydd: Wiley.

[58] Sutton-Smith, B. (1997) *The Ambiguity of Play*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

[59] Vygotsky, L. S. (1934) *Thinking and Speech*.

[60] Sutton-Smith, B. (2003) Play as a Parody of Emotional Vulnerability. Yn: Little, D. E. gol. *Play and Educational Theory and Practice: Play and Culture Studies*, Cyf. 5. Westport, CT: Praeger Publishers.

[61] *Taking Play Seriously*.

[62] Vygotsky, L. (1978) The Role of Play in Development (92-104). Yn: *Mind in Society* (Tros. M. Cole). Cambridge, MA: Harvard University Press.

[63] Vygotsky, L. S. (1933) Play and its role in the mental development of the child, *Voprosy psikhologii*, Rhif. 6, td.102.

[64] *Play and its role in the mental development of the child*, td.103.

[65] Feldman, D. H. a Fowler, C. (1997 The nature of developmental change: Piaget, Vygotsky and the transition process, *New Ideas in Psychology*, 15, 195-210.

[66] Brown, F. (2003) Compound flexibility: the role of playwork in child development. Yn: Brown, F. gol. (2003) *Playwork, Theory and Practice*. Buckingham: Open University Press.

[67] Brown, F. (2014) Playwork. Yn: Brock, A., Jarvis, P. ac Olusoga, Y. gol. *Perspectives on Play: Learning for Life*. 2ail arg. Llundain: Routledge.

[68] Richerson, P., Mulder, M. a Vila, B. (1996) *Principles of human ecology*. Needham Heights. MA.: Simon & Schuster Custom Pub.

[69] Hogan, D. (2005) Researching 'the Child' in Developmental Psychology. Yn: Greene, S. a Hogan. D. gol. (2005) *Researching children's experience*. Llundain: Sage.

[70] Göncü, A. a Gaskins, S. (2007) *Play and Development*. Llundain: Psychology Press.

[71] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*, td.39.

[72] Prout, A. a James, A. (1997) *Constructing and Re-constructing Childhood*. Llundain: Falmer Press.

[73] *Constructing and Re-constructing Childhood*.

[74] Prout, A. (2005) *The Future of Childhood*. Abingdon: Routledge.

[75] Diamond, A. (2007) Interrelated and Interdependent, *Developmental Science*, 10(1), 152-158.

[76] Rogoff, B. (2003) *The Cultural Nature of Human Development*. Rhydychen: Oxford University Press.

[77] *The Cultural Nature of Human Development*, td.51.

[78] Pellegrini, A. D., Dupuis, D. a Smith, P. K. (2006) Play in evolution and development. *Developmental Review*, 27, 261-276.

[79] *Children's Thinking*.

[80] *The Ambiguity of Play*.

[81] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*.

[82] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*, td.3.

[83] Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

[84] Sutton-Smith, B. (2008) Beyond Ambiguity. Yn: Brown, F. a Taylor, C. gol. (2008) *Foundations of Playwork*. Maidenhead: Open University Press.

[85] Rutter, M. (2006) Implications of Resilience Concepts for Scientific Understanding. Yn: New York Academy of Sciences. Resilience in Children conference. Arlington Virginia, 26-28 Chwefror 2006.

[86] Newman, T. (2004) *What Works in Building Resilience?* Barkingside: Barnardo's Masten.

[87] Masten, A. S. ac Obradović, J. (2006) Competence and resilience in development. *Annals of the New York Academy of Science*, 1094, 13-27.

[88] Masten, A. S. (2001) Ordinary magic. Resilience processes in development. *American Psychologist*, 56(3), 227-38.

[89] Benard, B. (2014) *The Foundations of the Resiliency Framework*.

[90] *The Foundations of the Resiliency Framework*, (Adran 4).

[91] Lester, S. a Russell, W. (2010) *Children's right to play: An examination of the importance of play in the lives of children worldwide*. Yr Hâg: Bernard van Leer Foundation.

[92] *Children's right to play: An examination of the importance of play in the lives of children worldwide*.

[93] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*, td.16.

[94] Panksepp, J. a Biven, L. (2012) *The Archaeology of Mind*. Llundain: W. W. Norton, td. xviii.

[95] *The Archaeology of Mind*.

[96] Pellis, S. a Pellis, V. (2009) *The Playful Brain: Venturing to the Limits of Neuroscience*. Rhydychen: Oneworld; The Archaeology of Mind.

[97] *Children's right to play: An examination of the importance of play in the lives of children worldwide*.

[98] Brown, F. a Patte, M. (2013) *Rethinking Children's Play*. Llundain: Bloomsbury.

[99] Perry, B. D. (1997) Incubated in Terror: Neurodevelopmental Factors in the 'Cycle of Violence'. Yn: Osofky, J. gol. (1997) *Children, Youth and Violence: The Search for Solutions*. Efrog Newydd: Guilford Press.

[100] Hughes, B. (2012) *Evolutionary Playwork*. 2$^{ail}$ arg. Abingdon: Routledge.

[101] *The Ambiguity of Play*.

[102] *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*, td.52.

[103] *Play for a Change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives* drawing on Vellacott, J. (2007) Resilience: A Psychoanalytical Exploration, *British Journal of Psychotherapy*, Cyf.23(2), 163-170.

[104] Shonkoff, J. a Phillips, D. (2000) *From neurons to neighborhoods*. Washington, D.C.: National Academy Press.

[105] Nietzsche, F. (1999) *The Birth of Tragedy and Other Writings*. gol. Raymond, G. a Ronald, S., (tros. Ronald Speirs). Caergrawnt: Cambridge University Press.

[106] Brown, F. (2014) *Play and Playwork: 101 Stories of Children Playing*. Maidenhead: Open University Press.

[107] Kehily, M. J. (2009) *An introduction to Childhood Studies*. Maidenhead: Open University Press.

[108] Locke, J. (1690) An essay concerning human understanding, edited with an introduction, critical apparatus and glossary by Peter H. Nidditch. Rhydychen, Clarendon Press, 1975.

[109] Gubar, M. (2005) *The Victorian Child*, c.1837-1901.

[110] Mayall, B. (2002) *Towards a Sociology for Childhood*. Buckingham: Open University Press.

[111] Er enghraifft: Prout, A. a James, A. (1997) *Constructing and Re-constructing Childhood*. Llundain: Falmer Press; Cunningham, H. (2006) *The Invention of Childhood*. Llundain: BBC Books.

[112] *Constructing and Re-constructing Childhood*, td.7.

[113] Maynard, T. a Thomas, N. gol. (2009) *An Introduction to Early Childhood Studies*. 2[ail] arg. Llundain: Sage Publications.

[114] *An introduction to Childhood Studies*, td.5.

[115] Woodhead, M. (1996) *In Search of the Rainbow: Pathways to Quality in Large-scale Programmes for Young Disadvantaged Children*. Yr Hâg: Bernard Leer Foundation, td.9.

[116] Vogler, P., Crivello, G. a Woodhead, M. (2008) *Early Childhood Transitions Research: A review of concepts, theory, and practice*, Working Paper 48, Bernard van Leer Foundation, Yr Hâg.

[117] Goldstein, J. gol. (1998) *Sports, games and play: Social and Psychological Viewpoints*. 2[ail] arg. Hillsdale, NJ: Erlbaum. Pen.1. Dyfynwyd yn Prout, A. (2005) *The Future of Childhood*. Llundain: Routledge.

[118] Brown, F. (2012) *Play and Playwork: Reflections on Practice*. Maidenhead: Open University Press.

[119] Jones, P. (2009) *Rethinking Childhood*. Llundain: Continuum.

[120] *In Search of the Rainbow: Pathways to Quality in Large-scale Programmes for Young Disadvantaged Children*, td.9.

[121] Stainton Rogers, W. (2009) Promoting better childhoods. Yn: Kehily, M. J. (2009) *An introduction to Childhood Studies*. Maidenhead: Open University Press.

[122] *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*.

[123] Roche, J. (2005) Children, Citizenship and Human Rights, *Journal of Social Sciences*, Rhifyn Arbennig: Children's Citizenship: An emergent discourse on the rights of a child (9) 43-55.

[124] *Children, Citizenship and Human Rights*.

[125] *Children's right to play: An examination of the importance of play in the lives of children worldwide*.

[126] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) *General Comment No. 17 (2013) on the right of the child to rest, leisure, play, recreational activities, cultural life and the arts (article 31)*. CRC/C/GC/17: Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

[127] Er enghraifft: Palmer, S. (2006) *Toxic Childhood: How The Modern World Is Damaging Our Children And What We Can Do About It*. Llundain: Orion.

[128] Kehily, M. J. (2010) Childhood in crisis? Tracing the contours of 'crisis' and its impact upon contemporary parenting practices. *Media, Culture & Society*, 32(2) 171-185.

[129] *Towards a Sociology for Childhood*.

[130] Wyness, M. (2006) *Children and Society: An introduction to the sociology of childhood*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

[131] *Children's Society (2013) Good Childhood Report*. Llundain: The Children's Society.

[132] Alexander, R. (2008) The Primary Review: Emerging Perspectives on Childhood. Yn: *Childhood, Wellbeing and Primary Education*, Westminster, 17 Mawrth 2008.

[133] The Primary Review: Emerging Perspectives on Childhood. Yn: Childhood, *Wellbeing and Primary Education*, td.5.

[134] *The Invention of Childhood*.

[135] *The Invention of Childhood*, td.245.

[136] *Rethinking Childhood*, td.29.

[137] *The Future of Childhood*.

[138] Sturrock, G. (2007) Towards tenets of playwork practice. Yn: *IP-DiP* Rhifyn 1, Med-Rhag 2007. Eastbourne: Meynell Games.

[139] Morpurgo, M. (2006) *Michael Morpurgo on Childhood.*

[140] Brown, F. (2009) *What is Playwork?* Factsheet No. 14. Llundain: Children's Play Information Service.

[141] Towler, K. (2011) Is it illegal to play football on the street? Araith allweddol Cynhadledd Fyd-eang IPA: Chwarae i'r Dyfodol – goroesi a ffynnu, 4-7 Gorffennaf 2011, Neuadd y Ddinas Caerdydd.

[142] *Foundations of Playwork*.

[143] Hughes, B. (1996) *A Playworker's Taxonomy of Play Types*. Llundain: PLAYLINK, td.53.

[144] *Yr Hawl Cyntaf … Fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*.

[145] Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae.

[146] Ghaye, A. a Ghaye, K. (1998) *Teaching and Learning Through Critical Reflective Practice*. Llundain: David Fulton Publishers.

[147] Russell, W. (2006) *Reframing Playwork: Reframing Challenging Behaviour*. Nottingham: Nottingham City Council. Dyfynnwyd yn *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*.

[148] Sturrock, G., Russell, W. ac Else, P. (2004) Towards Ludogogy, Parts I, II and III. The art of being and becoming through play. Yn: Sturrock, G. ac Else, P. gol. *Therapeutic Playwork Reader 2*, Sheffield: Ludemos.

[149] Towards Ludogogy, Parts I, II and III. The art of being and becoming through play.

[150] Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at risg*.

[151] Brown, F. (2008) The Playwork Principles: a critique. Yn: F. Brown a C. Taylor, gol. *Foundations of Playwork*. Maidenhead: Open University Press.

## Nodiadau

# Atodiad: Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

**Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn sefydlu fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac yn hyn o beth dylid eu hystyried fel cyfanwaith. Maent yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn darparu'r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Maent wedi eu seilio ar y gydnabyddiaeth y caiff gallu plant a phobl ifanc i ddatblygu'n gadarnhaol ei gyfoethogi o dderbyn mynediad i'r ystod ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.**

**Ble fo'r Egwyddorion yn cyfeirio at blant a phobl ifanc, maent yn golygu pob plentyn a pherson ifanc.**

1. Mae pob plentyn a pherson ifanc angen chwarae. Mae'r awydd i chwarae'n un greddfol. Mae chwarae'n angenrhaid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad iach a lles unigolyn a chymunedau.

2. Mae chwarae yn broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Hynny yw, y plant a'r bobl ifanc fydd yn penderfynnu a rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, trwy ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.



3. Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn hysbysu datblygiad polisi chwarae, strategaeth, hyfforddiant ac addysg.

4. I weithwyr chwarae, y broses chwarae fydd flaenaf a bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae pan yn ymwneud ag agendâu gaiff eu harwain gan oedolion.

5. Rôl y gweithwyr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu gofod ble y gallant chwarae.

6. Caiff ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc ei seilio ar wybodaeth gyfredol, gref o'r broses chwarae, ac arfer myfyriol.

7. Mae gweithwyr chwarae'n cydnabod eu effaith eu hunain ar y gofod chwarae yn ogystal ag effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithwyr chwarae.

8. Bydd gweithwyr chwarae'n dewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg â'r budd datblygiadol a lles plant.

Caiff Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae eu dal mewn ymddiriedolaeth i broffesiwn gwaith chwarae'r DU gan y Grŵp Archwilio a weithredodd fel brocer teg i oruchwylio'r ymgynghoriadau ble y datblygwyd yr Egwyddorion.

Chwarae Cymru
Play Wales

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif. 1068926 © Chwarae Cymru

Chwefror 2021